

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-2023

Chwefror 2022



Cynnwys

Argymhellion	5
1. Cefndir	9
Trosolwg o'r broses graffu ar y gyllideb	9
Craffu ar y Gyllideb yn 2022-23.....	9
2. Ein dull gweithredu	11
Hawliau plant	11
Iechyd a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc.....	12
Gweithio gyda phwyllgorau eraill y Senedd a chlywed gan blant a phobl ifanc.....	12
3. Trosolwg o'r Gyllideb Ddrafft	13
Crynodeb o Gyllideb Ddrafft 2022-23 yn ei chyfanrwydd.....	13
Cymharu Cyllideb Ddrafft 2022-23 â dyraniadau 2021-22	14
Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gofal Cymdeithasol	15
Y MEG yn ei gyfanrwydd.....	15
Iechyd a Gofal Cymdeithasol Plant	15
Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a'r Gymraeg.....	16
Dadansoddiad o'r MEG	16
Newidiadau ers 2022-23.....	17
4. Ein gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft	20
Dull Llywodraeth Cymru o gyllidebu	20
Tryloywder.....	20
Atebolrwydd.....	23
Ein barn ni	24
Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl.....	24
Ein barn ni	28
Iechyd corfforol.....	29
Ein barn ni	32

Diogelu	32
Ein barn ni	33
Plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal	34
Ein barn ni	35
Blynyddoedd cynnar a gofal plant	35
Ein barn ni	37
Adfer wedi'r pandemig	37
Y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	37
Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a'r Gymraeg	38
Ein barn ni	41
Cyllid ysgolion	42
Y setliad llywodraeth leol	42
Y Grant Datblygu Disgyblion	43
Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif gynt)	45
Ein barn ni	46
Diwygiadau addysg a chodi safonau	48
Y cwricwlwm newydd i Gymru	48
Anghenion Dysgu Ychwanegol	49
Codi safonau ysgolion	50
Miliwn o siaradwyr erbyn 2050	51
Ein barn ni	51
Addysg Bellach a dysgu gydol oes	52
Addysg Bellach	52
Lwfans Cynhaliath Addysg (LCA)	53
Gwarant i Bobl Ifanc	54
Ein barn ni	55
Addysg Uwch	57
Cyllid ar gyfer Addysg Uwch	57

Adolygiadau Diamond a Reid	58
Gradd-brentisiaethau	59
Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu	60
Ein barn ni	61

Argymhellion

Argymhelliad 1. Bob blwyddyn, pan fydd yn cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft a'r dogfennau atodol, dylai Llywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi'r Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant y mae'n eu cynnal fel rhan o'r broses gyllidebu, a nodi'n glir sut y maent yn cyfrannu i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol cyffredinol a phenderfyniadau ar ddyraniadau cyllid.....24

Argymhelliad 2. Bob blwyddyn, pan fydd yn cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft a dogfennau atodol, dylai Llywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi data y mae'n eu dal sy'n nodi i ba raddau y mae cyllid yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a phob MEG perthnasol arall wedi'i ddyrannu i blant a phobl ifanc.24

Argymhelliad 3. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi fframwaith ar waith i fonitro a gwerthuso gwerth am arian cynlluniau cymorth iechyd meddwl y trydydd sector a ariennir gan y sector cyhoeddus. Dylai'r fframwaith fod yn gyson, yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau mesuradwy i blant a phobl ifanc, ac yn gymesur er mwyn osgoi gosod gofynion adrodd rhy feichus ar sefydliadau'r trydydd sector.28

Argymhelliad 4. Mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd meddwl amenedigol arfaethedig yn Lloegr i gefnogi teuluoedd yn y gogledd a'r canolbarth, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'r canlynol:29

- amserlen ar gyfer pryd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd yr uned yn Lloegr yn dechrau derbyn atgyfeiriadau ar gyfer teuluoedd;29

- eglurhad ynghylch pa ddarpariaeth fydd ar gael i deuluoedd o Gymru, gan gynnwys capasiti, staffio a darpariaeth Gymraeg;29

- i ba raddau y bydd gweithio gyda GIG Lloegr yn effeithio ar y ddarpariaeth i gleifion; atebolrwydd am ddarparu gwasanaethau; ac i ba raddau y bydd cymorth i deuluoedd o Gymru yn cael ei ddarparu mewn fframwaith deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru (e.e. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) ac amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru.29

Argymhelliad 5. Fel rhan o'i ffrwd waith grŵp gweithgareddau dyddiol a gweithgareddau gwerthuso neu fonitro perthnasol y mae'n eu cynnal, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gall sicrhau bod pob ysgol yn cynnig ystod o gyfleoedd chwaraeon ac ymarfer corff o ansawdd uchel i'w disgyblion fel rhan o'i strategaethau ehangach i atal gordewdra ymhlith plant.32

Argymhelliad 6. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru nodi amserlen glir a manwl ar gyfer ei chynlluniau i ddiwygio gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu a'r ymateb i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru. Mae'n rhaid i'r amserlen gynnwys cerrig milltir gweithredu allweddol a gofynion cyllid cysylltiedig.	35
Argymhelliad 7. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod digon o gyllid wedi'i neilltuo i ddatrys problemau capasiti yn y gweithlu gofal plant i'w alluogi i ehangu gofal plant yn llwyddiannus fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.	37
Argymhelliad 8. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn bob chwe mis am adferiad wedi'r pandemig mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys data sydd ar gael am wasanaethau iechyd adferiad wedi'r pandemig ac effaith adferiad wedi'r pandemig ar ddarpariaeth addysgol (cynnydd addysgol, cyrhaeddiad, anghydraddoldebau, ac ati).	42
Argymhelliad 9. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymateb i adolygiad Sibieta o gyllid ysgolion a nodi sut y bydd yn bwrw ymlaen â'r argymhellion.	46
Argymhelliad 10. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut y mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn gweithio ochr yn ochr â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ac awdurdodau lleol i sicrhau bod ysgolion yn cael cyllid digonol i gyflawni ymrwymadau polisi Llywodraeth Cymru.	46
Argymhelliad 11. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Grant Datblygu Disgyblion yn parhau i gael ei ddefnyddio i ddatblygu a darparu ymyriadau wedi'u targedu sydd o fudd i blant o deuluoedd incwm isel a phlant sydd wedi'u mabwysiadu a phlant â phrofiad o fod mewn gofal.	47
Argymhelliad 12. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro manylion am ehangu'r cynllun Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad, gan gynnwys newidiadau i feini prawf cymhwysedd (gan gynnwys grwpiau blwyddyn), faint o gyllid fydd ar gael i ddisgyblion cymwys, pryd y bydd y newidiadau'n dod i rym a'r effaith cost debygol.	47
Argymhelliad 13. Cyn gynted ag y gall wneud hynny, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro'r canlynol mewn perthynas ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ehangu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd:	48
▪ A fydd newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion neu'r Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad.	48

-
- Pa newidiadau y bydd angen i ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru eu gwneud i'w prosesau gweinyddol i sicrhau bod ysgolion yn cael cyllid y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer yr holl blant cymwys ar y gofrestr, a sut y caiff ysgolion eu helpu i wneud y newidiadau hynny yn ystod y cyfnod pontio.48
 - Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd pob teulu sy'n gymwys i gael y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad yn parhau i allu hawlio'r cyllid hwnnw.48
 - Manylion am y dangosyddion y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio yn lle cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim at ddibenion adrodd ar ddata, olrhain canlyniadau disgyblion a sail ei pholisïau sy'n ceisio cefnogi addysg plant o gefndiroedd difreintiedig.48
- Argymhelliad 14.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gadarnhau cost ddisgwyliedig y cynllun prydau ysgol am ddim estynedig, beth yw ei hamcanion polisi, a'r rhesymeg polisi ar gyfer blaenoriaethu'r cyllid hwn dros fentrau eraill sy'n targedu plant o deuluoedd incwm isel neu blant â phrofiad o fod mewn gofal.....48
- Argymhelliad 15.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro pam mae'n credu bod angen llai o gyllid ar gyfer y camau gweithredu 'Cwricwlwm ac Asesu' ac 'Addysgu ac Arweinyddiaeth' yn 2022-23 nag yn 2021-22.....52
- Argymhelliad 16.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro faint o'r cyllid y mae wedi'i ddyrannu ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd wedi'i glustnodi i fynd i'r afael â'r pwysau presennol, a faint sydd wedi'i neilltuo i weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.....52
- Argymhelliad 17.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:52
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am gynnydd ei gwaith yn canolbwyntio ar oresgyn heriau i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050;52
 - cyhoeddi asesiad o gapasiti presennol y gweithlu i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.52
- Argymhelliad 18.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro faint o'r cyllid £11 filiwn ychwanegol a ddyrannwyd i'r BEL Darpariaeth Ôl-16 mewn cymhariaeth â'r Gyllideb Atodol gyntaf yw er mwyn galluogi darparwyr Addysg Bellach i ddarparu ar gyfer dysgwyr ychwanegol yn ystod 2022-23, a faint sydd at ddibenion eraill.55
-

Argymhelliad 19. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o ddyfarniad yr LCA a'r trothwy cymhwysedd incwm i gadarnhau cyfraddau priodol sy'n darparu'r un buddion i'r un gyfran o ddysgwyr a'u teuluoedd ag y gwnaethant pan gyflwynwyd yr LCA yn 2004.56

Argymhelliad 20. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro'r canlynol:.....56

- y rhesymeg polisi dros beidio â chynyddu cyfradd yr LCA, sef £30 yr wythnos, ers 2004, sydd wedi arwain at ddibrisiant sylweddol yng ngwerth y dyfarniad;56

- effaith newidiadau (neu ddiffyg newidiadau) i drothwy incwm yr LCA ar gyfran y dysgwyr sy'n gallu hawlio'r LCA ers 2011-12 (h.y., data sy'n nodi nifer y dysgwyr sy'n hawlio'r LCA yn erbyn cyfanswm y dysgwyr a'r trothwy incwm ar gyfer pob blwyddyn)......56

Argymhelliad 21. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro pam nad yw'r newidiadau demograffig sy'n debygol o arwain at fwy o ddysgwyr mewn Addysg Bellach o 2022-23 ymlaen wedi arwain at gyllideb uwch ar gyfer yr LCA.56

Argymhelliad 22. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn argymhell ar y cyd y dylai Llywodraeth Cymru nodi dadansoddiad o'r cyfraniadau o bob Prif Grŵp Gwariant – ar lefel llinell wariant yn y gyllideb – sy'n cyfuno i greu'r cyllid £500 yr amcangyfrifir bod ei angen er mwyn cyflawni'r Warant i Bobl Ifanc. Dylai'r dadansoddiad hwn ei gwneud yn glir beth yw cyllid newydd a beth yw parhad rhaglenni presennol.57

Argymhelliad 23. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir sut y mae'n bwriadu gweithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid, dysgwyr a chyflogwyr i ysgogi'r galw am radd-brentisiaethau, a'r nifer sy'n eu dilyn, ar draws ystod o sectorau.61

Argymhelliad 24. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor bob chwe mis ar hynt gweithredu'r Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu, gan gynnwys gwybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r rhaglen i ddysgwyr Addysg Bellach.61

1. Cefndir

Trosolwg o'r broses graffu ar y gyllideb

1. Mae'r gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft dan arweiniad Pwyllgor Cyllid y Senedd. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn edrych yn eang ar y gyllideb gyfan, ac mae'n ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn gwneud gwaith craffu strategol i gefnogi pwyllgorau polisi. Caiff y Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau.
2. Pwyllgorau polisi – megis y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – sy'n gyfrifol am graffu ar feysydd polisi penodol sy'n berthnasol iddynt. Gallant wneud hyn drwy ysgrifennu at Weinidogion Cymru i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig am y Gyllideb Ddrafft, gwahodd Gweinidogion Cymru i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, defnyddio canfyddiadau gwaith ymgysylltu'r Pwyllgor Cyllid, a/neu wneud eu gwaith ymgysylltu eu hunain. Pan fyddant wedi casglu'r dystiolaeth y mae arnynt ei hangen, caiff pwyllgorau polisi gyflwyno adroddiad ar eu canfyddiadau.
3. Cynhelir dadl ar y Gyllideb Ddrafft yn y Cyfarfod Llawn yn y Senedd, wedi'i hategu gan adroddiadau'r pwyllgorau. Ar ôl cynnal dadl ar y Gyllideb Ddrafft, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cynnig y Gyllideb Flynyddol. Mae Cynnig y Gyllideb Flynyddol yn cynnwys y Gyllideb Derfynol i Lywodraeth Cymru, y mae'n bosibl bod y Llywodraeth wedi'i newid ers y ddadl ar y Gyllideb Ddrafft.

Craffu ar y Gyllideb yn 2022-23

4. Ysgrifennodd y Pwyllgor Cyllid at gadeiryddion pwyllgorau polisi'r Senedd ym mis Gorffennaf 2021 i nodi ei ddull arfaethedig o graffu ar y Gyllideb Ddrafft.¹ Argymhellodd fod pwyllgorau polisi'n dilyn y pedair egwyddor craffu ariannol wrth iddynt graffu ar y gyllideb (fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian, a phrosesau'r gyllideb). Hefyd, cadarnhaodd y llythyr y byddai'r Pwyllgor Cyllid yn ymgysylltu â'r cyhoedd ar ran holl bwyllgorau'r Senedd. Roedd yr ymgysylltiad yn cynnwys ymgynghoriad² a chyfres o gyfarfodydd grŵp ffocws, a chafodd ei gynnal rhwng 17 Medi a 26 Tachwedd 2021.³

¹ Senedd Cymru, '[Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at bwyllgorau'r Senedd ynghylch gwaith craffu ariannol](#)', 16 Gorffennaf 2021

² Senedd Cymru, '[Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23](#)'

³ Senedd Cymru, '[Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-2023: Adroddiad Ymgysylltu](#)', Rhagfyr 2021

5. Cafodd Cyllideb Ddrafft 2022-23 ei chyhoeddi ar 20 Rhagfyr 2021. Y dyddiad cau i'r Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgorau polisi gyflwyno adroddiad oedd 4 Chwefror 2022. Cynhelir dadl ar y Gyllideb Ddrafft ar 8 Chwefror 2022, a bydd Cynnig y Gyllideb Flynyddol yn cael ei drafod ar 8 Mawrth 2022.

2. Ein dull gweithredu

7. Cytunodd y Pwyllgor y byddai ei ddull o graffu ar y gyllideb yn seiliedig ar Strategaeth y Chweched Senedd.⁴

Hawliau plant

8. Rydym wedi ymrwymo i roi hawliau plant wrth wraidd popeth a wnawn. Mae Erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("CCUHP") yn nodi'r canlynol:

*"States Parties shall undertake all appropriate legislative, administrative, and other measures for the implementation of the rights recognized in the present Convention. With regard to economic, social and cultural rights, States Parties shall undertake such measures to the maximum extent of their available resources [...]"*⁵

9. Mae mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau plant yn cynnwys craffu a yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r eithaf er mwyn gweithredu CCUHP. Er mwyn gwneud hynny, mae arnom angen gwybodaeth glir a thryloyw am effaith Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar blant a phobl ifanc.

10. Roedd ein Pwyllgor blaenorol yn pwysu ar y Llywodraeth yn gyson i gael y wybodaeth glir a thryloyw honno. Cododd ef, a phwyllgorau eraill y Bumed Senedd, bryderon ynghylch tryloywder y Gyllideb Ddrafft, megis:

- diffyg Asesiad unigol o'r Effaith ar Hawliau Plant ar y Gyllideb Ddrafft hyd yn oed pe bai'n cael ei chyfuno yn y pen draw â'r asesiad integredig cyffredinol,⁶ ac annigonolrwydd Asesiad Effaith Integredig Strategol cyffredinol y Llywodraeth⁷;
- y diffyg eglurder ynghylch faint o arian sy'n cael ei ddyrannu'n benodol ar gyfer plant a phobl ifanc mewn rhai meysydd o'r gyllideb;⁸

⁴ Senedd Cymru, '**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Strategaeth y Chweched Senedd**', Rhagfyr 2021

⁵ UNICEF, '**Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**'

⁶ Senedd Cymru, '**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Hawliau plant yng Nghymru**', tudalennau 61-70

⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, '**Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol**', tudalennau 21-22

⁸ Senedd Cymru, '**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22**', Chwefror 2021, tudalennau 11-13

- a oes gan y Gweinidog priodol reolaeth dros arian sy'n cael ei wario ar blant a phobl ifanc.⁹

11. Gyda hyn mewn golwg, ar 9 Tachwedd 2021, gwnaethom ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg ac Addysg¹⁰ a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol¹¹ i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig fanwl am y Gyllideb Ddrafft sy'n mynd y tu hwnt i'r wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chyhoeddi. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Gweinidogion a'u swyddogion am eu hymatebion cynhwysfawr.¹²

Iechyd a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc

12. Un o brif ganfyddiadau ein hymarfer ymgynghori ar ein blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd oedd y dylai iechyd a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc fod yn ganolog i bopeth a wnawn. Felly, yn ein Strategaeth y Chweched Senedd, gwnaethom ddatgan y bydd llesiant meddyliol yn llinyn drwy ein holl waith. Byddwn yn monitro'n graff effaith penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar iechyd a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc i sicrhau eu bod yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol.

13. Gofynnwyd am oblygiadau'r gyllideb i lesiant meddyliol plant a phobl ifanc wrth i ni gasglu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan Lywodraeth Cymru.

Gweithio gyda phwyllgorau eraill y Senedd a chlywed gan blant a phobl ifanc

14. Yn ein Strategaeth y Chweched Senedd, rydym yn ymrwymo i weithio gyda phwyllgorau eraill y Senedd lle y gallwn, ac i roi lleisiau plant a phobl ifanc wrth wraidd popeth a wnawn.

15. Mae ein cylch gorchwyl yn gorgyffwrdd â chylchoedd gorchwyl pwyllgorau eraill y Senedd. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys iechyd corfforol, iechyd meddyliol ac iechyd y cyhoedd, a llesiant pawb yng Nghymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

⁹ Senedd Cymru, '[Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22](#)', Chwefror 2021, tudalennau 19-20

¹⁰ Senedd Cymru, '[Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg](#)', 9 Tachwedd 2021

¹¹ Senedd Cymru, '[Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)', 9 Tachwedd 2021

¹² Ar gyfer y dystiolaeth ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gweler: Llywodraeth Cymru, '[Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23](#)', Rhagfyr 2021 Ar gyfer y dystiolaeth ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r MEG Addysg a'r Gymraeg, gweler: Llywodraeth Cymru, '[Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2022-23 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg](#)', Rhagfyr 2021

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnwys cydraddoldeb, hawliau dynol, tldi a gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y mae pob un yn cael effeithiau sylweddol ar blant a phobl ifanc.

16. Er mwyn lleihau dyblygu ac i gydgyssylltu ein hymdrechion cymaint â phosibl, rydym wedi rhannu'r wybodaeth ysgrifenedig sydd wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac i'r gwrthwyneb. Mae swyddogion sy'n cefnogi'r Pwyllgor hwn, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol hefyd wedi cydweithio i gydgyssylltu eu cymorth i'r Aelodau.

17. Rydym hefyd wedi defnyddio canfyddiadau gwaith ymgysylltu'r Pwyllgor Cyllid. Roedd y gwaith ymgysylltu yn cynnwys ymarfer ymgynghori¹³ a chyfres o gyfarfodydd grŵp ffocws.¹⁴ Y cyfarfodydd grŵp ffocws oedd yn arbennig o berthnasol i'r Pwyllgor hwn oedd y rhai pan oedd y canlynol yn bresennol.

- Pobl ifanc o Fwrdd Prosiect Cymru Ifanc Plant yng Nghymru
- Cymysgedd o benaethiaid a llywodraethwyr ysgol
- Pum cyfranogwr a oedd, ar adeg cyfarfod y grŵp ffocws, wedi cael cymorth gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
- Penaethiaid a llywodraethwyr ysgol
- Dysgwyr gydol oes yn y coleg

18. Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Cyllid am ei gymorth drwy gydol y broses graffu ar y gyllideb.


3. Trosolwg o'r Gyllideb Ddrafft

Crynodeb o Gyllideb Ddrafft 2022-23 yn ei chyfanrwydd

19. Mae'r ffeithlun a ganlyn yn crynhoi'r dyraniadau allweddol fesul adran llywodraeth. Ffynhonnell: Senedd Cymru, 'Cyllideb Llywodraeth Cymru 2022-2023 – Dysgu rhagor am y gyllideb', Rhagfyr 2021.

¹³ Senedd Cymru, 'Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23'

¹⁴ Senedd Cymru, 'Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-2023: Adroddiad Ymgysylltu', Rhagfyr 2021



	Total revenue and capital allocation*	Change 2021-22 Final Budget (revised baseline) to 2022-23 Draft Budget	
Health and Social Services	£10,137m	£966m 10.5%	▲
Finance and Local Government*	£4,609m	£489m 11.9%	▲
Climate Change	£2,756m	£363m 15.2%	▲
Education and the Welsh Language**	£2,531m	£622m 32.6%	▲
Economy	£527m	£48m 9.9%	▲
Rural Affairs	£393m	£37m 10.3%	▲
Central Services and Administration	£354m	£32m 10.1%	▲
Social Justice	£127m	£22m 21.0%	▲

— *Excludes around £1 billion non-domestic rates income.
 — **Includes allocation of £459 million of non-fiscal revenue due to student loans.
 — Figures are rounded. Refer to the Welsh Government Draft Budget 2022-23 for exact figures.

Cymharu Cyllideb Ddrafft 2022-23 â dyraniadau 2021-22

20. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft eleni a 2021-22, mewn gwirionedd mae'n cymharu Cyllideb Ddrafft 2022-23 â 'llinell sylfaen ddiwygiedig' fel y'i gelwir. Er mwyn cyfrifo'r llinell sylfaen ddiwygiedig, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd y Gyllideb Derfynol a gymeradwywyd ddechrau blwyddyn ariannol 2021-22. Yna, mae'n addasu'r ffigurau i gyfrifo cyllideb sydd, yn ei barn hi, yn galluogi cymhariaeth fwy cywir â chyllidebau'r dyfodol. Gall y llinell sylfaen ddiwygiedig fod yn llai na dyraniadau'r Gyllideb Derfynol, felly gall

codiadau cyllid yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23 ymddangos yn fwy o'u cymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig nag o'u cymharu â'r dyraniadau terfynol yng nghyllideb 2021-22.

21. Ymhellach, ceir canlyniadau gwahanol o gymharu Cyllideb Ddrafft 2022-23 â:

- Chyllideb Derfynol 2021-22, a osodwyd ddechrau'r flwyddyn ariannol (boed y llinell sylfaen ddiwygiedig ai peidio); neu
- â chyllideb 2021-22 fel y'i diwygiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ('Cyllidebau Atodol' fel y'u gelwir)

22. Fel arfer, mae dwy Gyllideb Atodol, ym mis Mehefin a mis Chwefror. Mae'r Cyllidebau Atodol yn adlewyrchu newidiadau i'r Gyllideb Derfynol a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol yn y cylch pennu cyllideb hwn ar gyfer y MEG Addysg a'r Gymraeg oherwydd bod Cyllideb Atodol gyntaf 2021-22 yn sylweddol uwch na Chyllideb Derfynol 2021-22. Rydym yn trafod hyn ymhellach dan y pennawd "Cyflwyno newidiadau i gyllid" ar dudalen 22.

23. Pan fyddwn yn cymharu Cyllideb Ddrafft 2022-23 â blynyddoedd blaenorol yn yr adroddiad hwn, byddwn yn nodi natur y gymhariaeth honno.

Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Y MEG yn ei gyfanrwydd

24. Yn 2022-23, fel yn y flwyddyn flaenorol, y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â'r dyraniad ariannol mwyaf o bob MEG. Cyfanswm y Gwariant a Reolir yw £10.14 biliwn, sef cynnydd 10.5 y cant o Gyllideb Derfynol 2020-21. Mae'r £10.14 biliwn yn cynnwys refeniw 9.8 biliwn a chyfalaf £335 miliwn. O'r refeniw £9.8 biliwn, dyrennir £9 biliwn ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG, gan gynnwys cyllid ar gyfer byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae hyn yn gynydd £881.3 miliwn (10.6 y cant) ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG ar Gyllideb Derfynol 2021-22 mewn termau arian parod.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol Plant

2022-23

25. Cynnydd £28 miliwn ar gyfer gofal plant a blynyddoedd cynnar, wedi'i wrthbwyso gan addasiadau eraill i'r gyllideb, mewn perthynas â'r Gyllideb Atodol gyntaf yn 2021-22. Bydd hyn

yn cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu ar Flynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, ac mae'n cynnwys:

"Gostyngiad o (£4.550m) ar Gymorth i Ofal Plant a Chwarae – BEL 310, o ganlyniad i ddyraniad ac addasiad yn ystod y flwyddyn oherwydd COVID-19.

Cynnydd o £11.5m (o gyllid newydd) yn BEL 60 ar gyfer cyllid Cymru Iachach Y Blynyddoedd Cynnar.

Cynnydd o £15.500m (o gyllid newydd) ar gyfer Cymorth i Ofal Plant a Chwarae mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant a Bwndeli Babanod.

£0.029m – cynnydd (o gyllid newydd) i'r BEL Cymorth i Hawliau Plant ar gyfer ymgynoriadau cyllido â Plant yng Nghymru.

£0.971m – cynnydd (o gyllid newydd) i'r BEL Cymorth i Blant a Theuluoedd.

Gwrth-droi £1.9m o drosglwyddiad rhwng prif grwpiau gwariant (yn 21-22) mewn perthynas â'r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer Alinio'r Cyfnod Sylfaen ac £1m o gyllid Gwaith Chwarae a symudodd hefyd rhwng y BEL Cymorth i Deuluoedd a Phlant a'r BEL Cymorth i Ofal Plant a Chwarae.¹⁵

2023-24

26. Mae papur y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi cynnydd cyffredinol ychwanegol £2 filiwn ar gyfer gofal plant a blynyddoedd cynnar i £30 miliwn yn rheolaidd o 2023-24 ymlaen. Bydd y cyllid hwn yn dod yn y BEL ar gyfer Gofal Plant a Chwarae, sy'n cynnwys y Cynnig Gofal Plant, Bwndeli Babanod a hyfforddiant i'r Gweithlu.

Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a'r Gymraeg

Dadansoddiad o'r MEG

27. Dyranid adnoddau Cyllideb Ddrafft 2022-23 ar gyfer Addysg a'r Gymraeg yw £2.176 biliwn, sy'n cynnwys 17 o gamau gweithredu ar gyfer adnoddau yn y gyllideb. Gellir rhannu pob cam gweithredu yn un neu fwy o Linellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL). Gellir crynhoi rhai o

¹⁵ Llywodraeth Cymru, 'Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23', Rhagfyr 2021, tudalen 4

elfennau allweddol y camau gweithredu ar gyfer adnoddau sy'n rhan o'r gyllideb Addysg a'r Gymraeg fel a ganlyn.

- Dau gam gweithredu sy'n darparu cyllid craidd i addysg bellach ac addysg uwch (cyfanswm £771 miliwn).
- Un cam gweithredu yn darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr (£833 miliwn).
- Un cam gweithredu yn ymwneud ag Ymgysylltu a Chyflogaeth leuenctid (£17 miliwn).
- Pum cam gweithredu sy'n ariannu agweddau allweddol ar addysg cyn-16 megis Llythrennedd a Rhifedd, Cwricwlwm, Addysgu ac Arweinyddiaeth, Cymwysterau a sgiliau Cymraeg mewn addysg (cyfanswm £118 miliwn).
- Dau gam gweithredu sy'n cefnogi amcanion addysg allweddol Llywodraeth Cymru: y cam gweithredu Safonau Addysg i gefnogi gwella ysgolion (£174 miliwn) a'r cam gweithredu Grant Datblygu Disgyblion i fynd i'r afael ag effaith negyddol amddifadedd ar gyrhaeddiad (£133 miliwn).
- Dau gam gweithredu yn ymwneud â llesiant ac ymgysylltu (cyfanswm £99 miliwn).
- Dau gam gweithredu yn cefnogi Ystadau, TGCh a systemau rheoli gwybodaeth (cyfanswm £5 miliwn).
- Un cam gweithredu i gefnogi'r Gymraeg (£26 miliwn).
- Cam gweithredu Cymorth Cyflawni yn Llywodraeth Cymru (£1 filiwn).

28. Mae chwe cham gweithredu yn y gyllideb sy'n rhan o gyfalaf £355 miliwn Cyllideb Ddrafft 2022-23. Mae bron hyn oll (£352 miliwn) yn gam gweithredu yr Ystad a'r Ddarpariaeth TG, sy'n ariannu'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif gynt).

29. Ceir rhagor o fanylion ar wefan Llywodraeth Cymru¹⁶ neu Atodiad A o bapur y Gweinidog.¹⁷

Newidiadau ers 2022-23

¹⁶ Llywodraeth Cymru, '[Cynigion Cyllideb Ddrafft Manwl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23](#)', Rhagfyr 2021, rhesi 190-277

¹⁷ Llywodraeth Cymru, '[Papwr tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2022-23 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg](#)', Rhagfyr 2021

30. Mae'r MEG Addysg a'r Gymraeg yn cynnwys: £2.176 biliwn o gyllid adnoddau (refeniw) a £355 miliwn o gyllid cyfalaf. Mae'r cyllid adnoddau Addysg a'r Gymraeg £537 miliwn yn uwch yn 2022-23 na llinell sylfaen ddiwygiedig 2021-22.

31. Fodd bynnag, o'i chymharu â'r ffigurau cyllideb diweddaraf (fel y nodir yn y Gyllideb Atodol gyntaf), mae Cyllideb Derfynol 2022-23 yn gynydd £9.7 miliwn yn unig o'i chymharu â 2021-22. Ychwanegwyd £519 miliwn o gyllid adnoddau at y MEG Addysg a'r Gymraeg yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22, fel mai £2.166 biliwn yw cyllideb bresennol 2021-22, nid £1.647 biliwn a osodwyd yn y Gyllideb Derfynol yn ôl ym mis Mawrth 2021, nac £1.639 biliwn a nodir yn y llinell sylfaen ddiwygiedig.

32. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd £537 miliwn o linell sylfaen ddiwygiedig 2021-22 yn drosglwyddiad £349 miliwn nad yw'n arian parod mewn perthynas â benthyciadau myfyrwyr, sy'n cynnwys cost dileu benthyciadau myfyrwyr nad ydynt yn cael eu had-dalu, gan gynnwys llog a ildwyd.

33. Mae cynnydd arall yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23, o'i chymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig Cyllideb Derfynol 2021-22, yn cynnwys:

- £62 filiwn ar gyfer adfer a diwygio addysg, y mae llawer ohono'n gysylltiedig ag effaith pandemig COVID-19.
- £40 miliwn ar gyfer ehangu cymhwysedd pryduau ysgol am ddim.
- £20 miliwn ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion.
- £5.5 miliwn i gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc mewn ysgolion a cholegau.
- £51.5 miliwn i chweched dosbarth a cholegau gydnabod tueddiadau demograffig mewn cofrestriadau, dysgu oedolion a chyllid Adnewyddu a Diwygio sy'n gysylltiedig â'r pandemig.
- £6.5 miliwn ar gyfer y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu.¹⁸

34. Mae nifer o Linellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) wedi cael gostyngiadau bach (e.e. y Cyfnod Sylfaen, Cyfalaf CCAUC, Dyfarniadau Cymorth i Fyfyrwyr wedi'u Targedu), ac mae'r BEL Codi Safonau Ysgolion wedi dod i ben. Roedd y Llinell Wariant hon yn cynnwys tua £25 miliwn y

¹⁸ Llywodraeth Cymru, '**Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2022-23 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg**', paragraff 1.1.4, Rhagfyr 2021

flwyddyn a ddyrannwyd i'r agenda gwella ysgolion/safonau yn y Senedd flaenorol. Mae papur y Gweinidog yn esbonio bod y cyllid hwn bellach yn cael ei brif ffrydio i BEL eraill.¹⁹

¹⁹ Llywodraeth Cymru, '**Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2022-23 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg**', paragraff 2.2.2, Rhagfyr 2021

4. Ein gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft

Dull Llywodraeth Cymru o gyllidebu

Tryloywder

35. Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'n glir ac yn dryloyw pa adnoddau sy'n cael eu dyrannu i blant a phobl ifanc yn y Gyllideb Ddrafft. Fel arall, mae'n anodd cadarnhau a yw cyfran deg o gyllid Llywodraeth Cymru yn mynd i blant a phobl ifanc, a bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei dyletswydd statudol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn pan fydd yn gwneud penderfyniadau gwariant.

Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant

36. Mae'r Gyllideb Ddrafft wedi'i strwythuro fel nad yw bob amser yn bosibl gwybod a fydd cyllid yn cael ei ddyrannu i blant a phobl ifanc. Er enghraifft:

37. Dyrennir y rhan fwyaf o'r cyllid refeniw £9.8 biliwn yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG ar gyfer eu cynlluniau cyflawni. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd gwybod faint yn union o'r arian hwnnw fydd yn cael ei ddyrannu i blant a phobl ifanc.

38. Mae rhai meysydd cyllid allweddol (e.e. cyllidebau craidd ysgolion, cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol, gwasanaethau ieuencid a darpariaeth chwarae) yn cael eu hariannu'n bennaf gan y Setliad Llywodraeth Leol, sydd heb ei neilltuo (h.y. caiff awdurdodau lleol ei wario fel y mynnant yn fframwaith eu dyletswyddau statudol). Mae awdurdodau lleol gwahanol yn dyrannu cyfrannau gwahanol o'u cyllidebau i ysgolion, felly mae'n anodd gweld o'r Gyllideb Ddrafft faint sy'n cael ei wario ar addysg plant a phobl ifanc.²⁰ Gofynnwyd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn gallu dweud wrthym faint o'r £10.14 biliwn yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi'i ddyrannu i blant a phobl ifanc.

"[...] it is really difficult to give a precise answer and that's partly because the majority of the funding within my budget is allocated to the NHS directly as unhypothecated funding for the delivery of their plans, and we tell them where we'd like them to focus their plans, but the whole point is you're

²⁰ Fodd bynnag, cyhoeddir dadansoddiadau manwl o wariant awdurdodau lleol yn *ôl-weithredol* arStats Cymru.

*making local decisions based on the need to respond to the needs of that area."*²¹

39. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

"the difficulty when you're thinking about children is we don't know how many of them are going to break their leg, we don't know how many of them are going to develop diabetes, we don't know how many of them are going to develop cancer."

Mae hyn yn ei gwneud yn anodd dyrannu cyllid i blant a phobl ifanc yn benodol. Yn lle hynny, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi fframwaith cynllunio ar waith, sy'n nodi ei blaenoriaethau gweinidogol, gan gynnwys gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, roedd y Gweinidog yn gallu ymrwmo i ysgrifennu at y Pwyllgor i roi data ar wariant ar blant a phobl ifanc lle mae'r wybodaeth honno ar gael.²²

40. Un ffordd y gallai Llywodraeth Cymru fod yn fwy tryloyw yw llunio a chyhoeddi'n llawn Asesiadau penodol o'r Effaith ar Hawliau Plant o'i Chyllideb Ddrafft. Byddai Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn helpu o ran tryloywder ac yn ein helpu i ddeall yn well sut y mae penderfyniadau gwariant yn ystyried plant a phobl ifanc. Anogodd ein Pwyllgor blaenorol Lywodraeth Cymru i gyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant o'i Chyllideb Ddrafft ar sawl achlysur, gan gynnwys mewn adroddiad ar y cyd â Phwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a Phwyllgor Cyllid y Bumed Senedd.²³ Gwrthododd Llywodraeth Cymru wneud hynny, gan ddadlau bod yr offeryn y mae'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd i asesu effaith ei chyllideb – yr 'Asesiad Effaith Integredig Strategol' – yn ddigonol:

*"[...] mabwysiadu dull integredig o gynnal asesiadau o effaith y gyllideb ddrafft drwy'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn adlewyrchu'n well ein cyfrifoldeb i ystyried ein penderfyniadau yn gyffredinol o nifer o safbwyntiau er mwyn deall eu heffaith, gan gynnwys ystyried hawliau plant."*²⁴

²¹ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 159**

²² **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 159 - 168**

²³ Gweler: Senedd Cymru, '**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Hawliau plant yng Nghymru**', Tudalennau 61-70; Cynulliad Cenedlaethol Cymru, '**Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol**'; Senedd Cymru, '**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22**', Chwefror 2021

²⁴ Llywodraeth Cymru, '**Llythyr gan Julie Morgan AS at Lynne Neagle AS**', 23 Medi 2022

41. Gofynnwyd i'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol pam, os yw'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn ystyried hawliau plant, nad yw'n cyfeirio at CCUHP o gwbl nac at unrhyw un o'i erthyglau. Atebodd y Gweinidog:

"[...] we have, over recent years, taken an integrated approach to impact assessments, which includes, of course, the consideration of children's rights [...] We believe it's best to bring all those together in an integrated approach, and that enables us to understand more clearly the overall impact of decisions on children and young people."²⁵

42. Ychwanegodd y canlynol:

"detailed impact assessments, including children's rights impact assessments, are undertaken as part of our ongoing policy development and review, and these assessments will continue to be used to inform budget decisions and the wider impact assessment of the budget."

43. Cytunodd Llywodraeth Cymru, yn ystod y cyfarfod, i rannu rhagor o wybodaeth am asesiadau o'r effaith ar hawliau plant a oedd yn cyfrannu i Asesiad Effaith Integredig Strategol Cyllideb Ddrafft 2022-23.²⁶

Cyflwyno newidiadau i gyllid

44. Hyd yn oed pan fo'n glir a yw gwariant yn ymwneud â darpariaeth i blant a phobl ifanc, gall fod yn anodd gweld a yw'r cyllid a ddyrennir i feysydd penodol o'r gyllideb wedi codi neu ostwng o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol – ac os yw wedi codi, faint o'r cynnydd hwnnw sy'n gynnydd blynyddol gwirioneddol mewn cyllid defnyddiadwy (gweler paragraffau 20 i 22).

45. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod y MEG Addysg a'r Gymraeg wedi cynyddu £537 miliwn o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig Cyllideb Derfynol 2021-22. Fodd bynnag, o'i gymharu â'r gyllideb ddiweddaraf - Cyllideb Atodol gyntaf mis Mehefin 2021 - dim ond £10 miliwn yw'r cynnydd. Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg i esbonio pam y mae'r ffigurau'n wahanol. Dywedodd y canlynol wrthym:

"[...] the first question is: what is the most instructive, comparatively, budget to compare with, really? And I just listed to you a number of ways in which, in the last financial year, there was additional funding available on a one-off basis to respond to COVID—in historic terms, quite extraordinarily large

²⁵ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 177](#)

²⁶ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 178 - 181](#)

*sums of money, for obvious reasons. But that is not a steady-state position [...] The best comparison is the like-for-like comparison, which, in the context of the language that we use there, is the revised baseline budget for last year."*²⁷

46. Aeth y Gweinidog ymlaen i egluro, o'r cynnydd £537 miliwn mewn cyllid adnoddau o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig, mai dim ond £188 miliwn o'r ffigur hwnnw yw adnoddau ar gyfer y gyllideb yn gyffredinol, mae'r gweddill yn gyllideb nad yw'n arian parod, sy'n ymwneud â chyllid cymorth i fyfyrwyr yn y bôn sydd wedi'i glustnodi at y diben hwnnw.²⁸ Ychwanegodd y canlynol:

*"[...] even compared against the supplementary budget [...] if you were challenging me, on the most conservative approach, there is still a budget increase of about £48 million. So, on any basis, the budget is going up, and, on most of those bases, reasonably, you'd expect the following year's budget to be coming down."*²⁹

Atebolrwydd

47. Mae mentrau polisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn croestorri portffolios Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, er ei bod yn bosibl mai un Gweinidog sy'n gyfrifol am bolisi, gall y cyllid ar ei gyfer fod yng nghyllideb un arall. Er enghraifft, mae'r Rhaglen Dechrau'n Deg a gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal yn flaenoriaethau allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu i'r Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer y mentrau hynny yng nghyllideb y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

48. Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a allai heriau ddeillio o anghysondebau o ran cyfrifoldeb gweinidogion am gyflawni polisi a'r gweinidogion sy'n gyfrifol am gyllid polisi. Mewn perthynas â'r rhaglen Dechrau'n Deg, atebodd fod hyn yn drefniad sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n gweithio heb achosi anawsterau. Mae swyddogion yn gweithio'n galed i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu'n glir. Mae cyfarfodydd ar y cyd rheolaidd, ac mae penderfyniadau cyllid a pholisi yn cael eu hintegreiddio. Yr allwedd, ar gyfer Dechrau'n Deg a gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, yw perthnasoedd gwaith agos gyda phartneriaid cyflawni awdurdodau lleol.³⁰

²⁷ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 22](#)

²⁸ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 23](#)

²⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 23](#)

³⁰ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 184](#)

Ein barn ni

49. Rydym yn cydnabod ei bod yn her enfawr i Lywodraeth Cymru gyfrifo'n gywir faint o gyllid y mae'n bwriadu ei ddyrannu i ddarpariaeth sydd wedi'i thargedu i blant a phobl ifanc ar draws ei chyllideb gyfan. Deallwn, mewn rhai achosion, nad yw'n bosibl gwneud hynny heb roi baich gweinyddol afresymol ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus.

50. Fodd bynnag, rydym yn pryderu'n fawr ei bod yn ymddangos bod dull Llywodraeth Cymru o gyllidebu i blant a phobl ifanc yn 2022-23 yn llai tryloyw nag roedd yn ystod y Bumed Senedd. Nid oes Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'u cyhoeddi fel rhan o naratif y Gyllideb Ddrafft, ac nid oes cyfeiriadau o gwbl at CCUHP yn Asesiad Effaith Strategol Llywodraeth Cymru. Nid oedd y sicrwydd a gawsom yn ymdrin â'n pryderon bod hawliau plant wedi'u hymgorffori'n ddigonol ym mhroses datblygu'r gyllideb. Felly, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant y mae'n eu cynnal sy'n cyfrannu i Asesiad Effaith Integredig Strategol y Gyllideb Ddrafft i ddangos tystiolaeth o gydymffurfio â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Argymhelliad 1. Bob blwyddyn, pan fydd yn cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft a'r dogfennau atodol, dylai Llywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi'r Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant y mae'n eu cynnal fel rhan o'r broses gyllidebu, a nodi'n glir sut y maent yn cyfrannu i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol cyffredinol a phenderfyniadau ar ddyraniadau cyllid.

51. Clywsom fod rhai data am wariant ar blant a phobl ifanc yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu casglu'n rheolaidd gan weision sifil a staff y GIG. Credwn ei bod yn bwysig rhannu'r data hynny ac egluro sut y mae'n cyfrannu i'r broses o bennu dyraniadau cyllideb yn y dyfodol. Mae data'n hollbwysig i Lywodraeth Cymru ddangos cydymffurfedd â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, yn ogystal â sicrhau y gall sefydliadau anllywodraethol ddeall y broses graffu ar y gyllideb a chyfrannu iddi.

Argymhelliad 2. Bob blwyddyn, pan fydd yn cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft a dogfennau atodol, dylai Llywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi data y mae'n eu dal sy'n nodi i ba raddau y mae cyllid yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a phob MEG perthnasol arall wedi'i ddyrannu i blant a phobl ifanc.

Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl

Gwasanaethau i blant a phobl ifanc

52. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos, ym mis Tachwedd 2021, fod 527.5 o blant a phobl ifanc yn aros am fwy na'r targed, sef pedair wythnos, am apwyntiad cyntaf yn dilyn

atgyfeiriad ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Arbenigol. Mae hyn yn cymharu â 301 ym mis Hydref 2020.³¹ Ymatebodd Barnardo's Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2022-23. Argymhellodd adnoddau ychwanegol i ariannu iechyd meddwl i blant a phobl ifanc er mwyn ymateb i'r cyfnod trawmatig ers i'r pandemig ddechrau.³²

53. Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant egluro faint a ddyrannwyd ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Dywedodd y canlynol:

*"There's £5.5 million in 2022-23 and that rises to £10.5 million by 2024-25 annually. [...] It's important, I think, not to forget the money that we put into substance misuse services [...] We already spend £2.75 million of the substance misuse area planning board money—that's ring-fenced for children and young people. I'm very pleased to say that we'll be increasing that by £1 million in 2022-23, and thereafter, there are plans to increase this to £5.25 million and £6.25 million."*³³

54. Ychwanegodd y Dirprwy Weinidog y canlynol:

*"improving the mental health of children and young people is my top priority, so I can say to the committee very clearly that you can expect to see additional funding in this area."*³⁴

55. Ym mis Rhagfyr 2021, gwnaethom ysgrifennu at Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ofyn am wybodaeth am waith y maent yn ei wneud ochr yn ochr â'r trydydd sector i gefnogi plant a phobl ifanc gyda'u hiechyd meddwl.³⁵ Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog pa ddyraniadau cyllid sy'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi cydweithio rhwng y GIG a'r trydydd sector ar iechyd meddwl plant.

56. Esboniodd y Dirprwy Weinidog fod rhywfaint o'r cymorth a ddarperir gan y Llywodraeth drwy'r trydydd sector yn cael ei gomisiynu'n genedlaethol drwy'r Llywodraeth, ond bod byrddau iechyd hefyd yn buddsoddi'n sylweddol yn y trydydd sector. Mae Llywodraeth Cymru wedi

³¹ StatsCymru, **'Llwybrau cleifion sCAMHS sy'n aros am apwyntiad cyntaf yn ôl mis ac wythnosau wedi'u grwpio'**

³² Barnardo's Cymru, **'Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru'**, Tachwedd 2021

³³ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 135**

³⁴ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 134 - 135**

³⁵ Senedd Cymru, **'Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeiryddion yr holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol'**, 1 Rhagfyr 2021

darparu £1.4 miliwn ychwanegol - £200,000 i bob bwrdd iechyd - i'w gomisiynu'n uniongyrchol gyda'r trydydd sector. Mae hynny'n gyllid cylchol. Ychwanegodd fod y Llywodraeth yn edrych pa gyllid ychwanegol y gellir ei ddarparu i ddyrannu ymyriad lefel isel, ochr yn ochr â chymorth ar gyfer iechyd emosiynol, iechyd meddwl, a'r gronfa fuddsoddi ranbarthol newydd.³⁶

57. Gofynnwyd am ragor o fanylion am gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer atal hunanladdiad. Yn benodol, beth yn union y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gyflawni i gefnogi plant a phobl ifanc. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod y Llywodraeth, yn ddiweddar, wedi adolygu uned gyflawni gwasanaethau argyfwng, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc. Disgwylir yr adroddiad ar yr adolygiad hwnnw'n fuan.

58. Mae ein Pwyllgor wedi ymrwymo yn Strategaeth y Chweched Senedd i ganolbwyntio ar gyflawni polisi, a sicrhau newid gwirioneddol, pendant ar lawr gwlad i blant a phobl ifanc.³⁷ Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant sut y gellir cadw cydbwysedd i sicrhau bod cyllid i wella iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn cael ei wario fel y bwriadwyd.

59. Esboniodd y Dirprwy Weinidog fod yn rhaid i fyrddau iechyd ddarparu cynlluniau i gefnogi ceisiadau am gyllid yn erbyn y cyllid £50 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn gyffredinol. Mae hi, fel y Gweinidog perthnasol, yn monitro'r cynlluniau hynny ac mae swyddogion yn craffu arnynt. Mae'n cael cyfarfodydd rheolaidd â chadeiryddion y GIG a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac mae'n defnyddio fframwaith monitro perfformiad y GIG. Fodd bynnag, aeth ymlaen i bwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio ar ganlyniadau i blant.³⁸

60. Mae cyllid ar gyfer darpariaeth cymorth iechyd meddwl hefyd yn dod yn y MEG Addysg a'r Gymraeg – yn benodol, ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i "[G]yflwyno gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed 'o fewn cyrraedd' mewn ysgolion ledled Cymru".³⁹ Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg faint o gyllid sydd yn ei gyllideb i gefnogi'r 'dull ysgol gyfan' honedig, faint sy'n dod o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac a yw hwn yn gyllid newydd neu'n barhad cyllid sydd ar waith yn 2021-22.

"[...] we are increasing very significantly the budget for implementation of the whole-school approach to mental health and well-being [...] the budget for that is divided between my budget and Lynne Neagle's budget. The larger

³⁶ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 140**

³⁷ Senedd Cymru, **'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Strategaeth y Chweched Senedd'**, Rhagfyr 2021

³⁸ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 157**

³⁹ Llywodraeth Cymru, **'Y Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad'**, Rhagfyr 2021, tudalen 3

*part is in that budget and that's staying constant at £7 million a year for the next three years, but, in my budget, that's increasing very significantly. For the first year, there's an increase of £3.2 million, and that gets us to £9.6 million by the end of that period."*⁴⁰

61. Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a oedd darpariaeth ar gyfer hyfforddiant salwch meddwl ac emosiynol i staff ysgol fel rhan o gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Atebodd fod y cyllid ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc uchod (£5.5 miliwn yn 2022-23, yn codi i £10.5 miliwn yn 2024-25) yn cynnwys y dull ysgol gyfan o ran iechyd meddwl. Ychwanegodd y canlynol:

*"There will undoubtedly have to be training moneys to underpin that going forward, because we'll have to have the whole workforce equipped to deal with that."*⁴¹

62. Gofynnwyd yr un cwestiwn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg. Dywedodd wrthym y bydd y cyllid a roddwyd ar waith i gefnogi dysgu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd ar gael ar gyfer yr ystod gyfan o addysg broffesiynol i athrawon (gweler "Y cwricwlwm newydd i Gymru" ar dudalen 48 o'r adroddiad hwn am ragor o fanylion).⁴²

Iechyd meddwl amenedigol

63. Mae iechyd meddwl yn parhau i fod yn un o brif achosion marwolaeth mamau yn ystod beichiogrwydd a'r flwyddyn gyntaf ar ôl genedigaeth. Mae data'n dangos bod problemau iechyd meddwl amenedigol yn effeithio ar 10-20 y cant o fenywod yn ystod beichiogrwydd a'r flwyddyn gyntaf ar ôl cael baban.⁴³ Mae'r unig Uned Mamau a Babanod cleifion mewnol yng Nghymru yn y de. Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant sicrhau y bydd dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft yn sicrhau bod mamau ar draws Cymru yn cael mynediad cyfartal at gymorth iechyd meddwl amenedigol.

64. Dywedodd y Dirprwy Weinidog na fydd ar y mwyafrif helaeth o deuluoedd angen uned mamau a babanod, a bod y Llywodraeth am i'r teuluoedd hynny gael eu cefnogi yn y gymuned ac y bydd rhagor o fuddsoddiad yn y maes hwnnw yn y dyfodol, gan ei fod yn faes strategol allweddol i'r Llywodraeth. Aeth ymlaen i gydnabod ei bod yn hynod ymwybodol o'r angen i ddarparu mynediad i leoliadau mamau a babanod arbenigol a fydd yn diwallu'r angen yn y

⁴⁰ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 67 - 68](#)

⁴¹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 145](#)

⁴² [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 67](#)

⁴³ LSE, ['The costs of perinatal mental health problems'](#), 2014

gogledd, a bod y cyllid eisoes wedi'i nodi i ddatblygu'r gwasanaeth hwnnw. Bydd y gwaith hwnnw'n cael ei wneud mewn partneriaeth â GIG Lloegr, ond mae'n cael ei ddatblygu'n gyflym gan Lywodraeth Cymru.⁴⁴

Ein barn ni

Gwasanaethau i blant a phobl ifanc

65. Rydym yn croesawu'r cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fyrddau iechyd gomisiynu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl o'r trydydd sector. Rydym yn cefnogi dull Llywodraeth Cymru o annog byrddau iechyd i weithio gyda phartneriaid lleol i ddatblygu a darparu gwasanaethau wedi'u teilwra ar gyfer eu cymunedau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod arian ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl yn cael ei wario'n effeithiol hyd yn oed os yw wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am gomisiynu'r gwasanaethau hynny i'r GIG. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi fframwaith cyson ond cymesur ar waith ar gyfer monitro a gwerthuso canlyniadau gwaith partneriaeth y GIG/trydydd sector ar iechyd meddwl.

Argymhelliad 3. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi fframwaith ar waith i fonitro a gwerthuso gwerth am arian cynlluniau cymorth iechyd meddwl y trydydd sector a ariennir gan y sector cyhoeddus. Dylai'r fframwaith fod yn gyson, yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau mesuradwy i blant a phobl ifanc, ac yn gymesur er mwyn osgoi gosod gofynion adrodd rhy feichus ar sefydliadau'r trydydd sector.

Iechyd meddwl amenedigol

66. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y bydd gwaith i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol i deuluoedd yn y canolbarth a'r gogledd yn cael ei ddatblygu'n gyflym. Ond, yn ôl yn 2017, argymhellodd ein Pwyllgor blaenorol:

"[f]od Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni'r ffaith na fydd uned mamau a babanod sydd wedi'i lleoli yn ne Cymru o reidrwydd yn addas i famau a theuluoedd yng nghanolbarth a gogledd Cymru, yn ymgysylltu fel mater o frys â GIG Lloegr i drafod opsiynau ar gyfer creu canolfan yn y gogledd-ddwyrain a allai wasanaethu poblogaethau o boptu'r ffin [...]"⁴⁵

⁴⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 155

⁴⁵ Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru', Hydref 2017, tudalen 10

67. Rydym yn cydnabod bod angen i Lywodraeth Cymru gydbwysu hygyrchedd â màs critigol y gwaith clinigol sydd ei angen i Unedau Mamau a Babanod fod yn hyfyw. Rydym hefyd yn ymwybodol bod cymhlethdodau eraill, megis pwysau ar y gweithlu, yn ychwanegu at yr heriau y mae'r Llywodraeth yn eu hwynebu wrth iddi ystyried agor uned i gefnogi teuluoedd yn y canolbarth a'r gogledd.

68. Fodd bynnag, rydym yn siomedig ac yn rhwystredig oherwydd y cynnydd araf. Ni ddylai teuluoedd ar draws Cymru orfod teithio pellteroedd afresymol i gael cymorth iechyd meddwl amenedigol. Rydym hefyd yn aneglur ynghylch effeithiau gwaith ar y cyd â GIG Lloegr, ar gleifion ac ar gyfer amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir pa ddarpariaeth y mae'n ei bwriadu i deuluoedd yn y gogledd a'r canolbarth, pryd y bydd teuluoedd yn gallu cael y cymorth hwnnw, ac effaith cael uned i deuluoedd o Gymru yn Lloegr, yn hytrach nag yng Nghymru.

Argymhelliad 4. Mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd meddwl amenedigol arfaethedig yn Lloegr i gefnogi teuluoedd yn y gogledd a'r canolbarth, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'r canlynol:

- amserlen ar gyfer pryd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd yr uned yn Lloegr yn dechrau derbyn atgyfeiriadau ar gyfer teuluoedd;
- eglurhad ynghylch pa ddarpariaeth fydd ar gael i deuluoedd o Gymru, gan gynnwys capasiti, staffio a darpariaeth Gymraeg;
- i ba raddau y bydd gweithio gyda GIG Lloegr yn effeithio ar y ddarpariaeth i gleifion; atebolwydd am ddarparu gwasanaethau; ac i ba raddau y bydd cymorth i deuluoedd o Gymru yn cael ei ddarparu mewn fframwaith deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru (e.e. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) ac amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

Iechyd corfforol

Gordewdra ymhlith plant: 'Pwysau Iach: Cymru Iach'

69. Pwysau Iach: Cymru Iach yw cynllun tymor hir Llywodraeth Cymru i atal a lleihau gordewdra ar draws Cymru. Mae ystadegau diweddaraf y Rhaglen Mesur Plant yn dangos y 'bu cynnydd bach ond ystadegol arwyddocaol yn y cyfraddau gordewdra rhwng 2012/13 a 2018/19'. Canfu fod 27 y cant o blant yng Nghymru dros eu pwysau neu'n ordew. Mae hefyd yn nodi y

'cynyddodd y bwlch rhwng y cyfraddau gordewdra yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a'r rhai â'r amddifadedd lleiaf o 5.9% yn 2017/18 i 6.9% yn 2018/19'.⁴⁶

70. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Pwyllgor hwn yn cyfeirio at ddyrannu cyllideb £6.63 miliwn yn 2022-23 i gefnogi'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Mae'n ychwanegu y bydd cynllun cyflawni 2022-2024 yn cael ei gyhoeddi ddechrau 2022. Nid oedd y cynllun wedi'i gyhoeddi pan wnaethom gymryd tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2022-23. Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant sut y mae'r ffigur £6.63 miliwn yn ymwneud â chostau sy'n deillio o'r cynllun cyflawni, a sut y bydd y cynllun yn mynd i'r afael â'r bwlch cynyddol mewn lefelau gordewdra rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a'r rhai â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru.

71. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y bydd y cynllun cyflawni yn cael ei lansio ar 1 Mawrth 2022. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

"[...] there'll be a further £2.9 million investment per year into the delivery of services provided through health boards through our all-Wales weight-management pathway, and that includes services for children. There's a £1.2 million investment into system-based approaches to help support and drive local action and delivery [...] We're investing £600,000 in a children and families pilot, and that's taking place at the moment in three areas—Cardiff, Merthyr and Anglesey [...]"⁴⁷

72. Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog fod yn rhaid i hyn fod yn ymdrech drawslywodraethol, a dywedodd y canlynol:

"I'm very keen to see as much effort as possible targeted in the communities where we know that we've got the most significant problems, and we also know that the pandemic has made those inequalities so much more pronounced".⁴⁸

73. Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog esbonio pam y mae'r cwricwlwm newydd yn argymhell y dylid cael 120 o funudau o chwaraeon mewn ysgolion yr wythnos, ond heb ei gwneud yn ofynnol i ysgolion wneud hynny. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod y cwricwlwm newydd yn rhoi pwyslais cryf iawn ar iechyd a llesiant, a bod hynny'n cynnwys mwy nag iechyd meddwl. Aeth ymlaen i gydnabod bod angen i'r Llywodraeth weithredu ar frys nawr, a'n bod

⁴⁶ Iechyd Cyhoeddus Cymru, '**Pob Plentyn: Rhaglen Mesur Plant 2018/19**', Mawrth 2021

⁴⁷ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 193**

⁴⁸ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 193 - 194**

wedi sefydlu grŵp gweithgareddau dyddiol yn Llywodraeth Cymru sy'n edrych ar sut y gall y Llywodraeth wella lefelau gweithgarwch corfforol mewn ysgolion.⁴⁹

Hosbisau plant

74. Roedd ymateb Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2022-23 yn cynnwys crynodeb o gyllid statudol ar gyfer gofal seibiant dros nos i'r teuluoedd y maent yn eu cefnogi fesul cenedl. Mae hosbisau plant yn yr Alban yn cael 50 y cant o'u cyllid o ffynonellau statudol; yng Ngogledd Iwerddon mae'n 25 y cant; yn Lloegr mae'n 21 y cant; mae Gweriniaeth Iwerddon wedi cyhoeddi y bydd yn ariannu 30 y cant o'r costau cynnal. Maent yn esbonio y byddai mwy o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, yn unol â'r cyllid maent yn ei gael mewn gwledydd eraill yn y DU, yn galluogi hosbisau i gyflogi mwy o staff, sicrhau nosau ychwanegol o ofal mewn hosbisau i blant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd a lliniaru'r baich ar ysbytai, ymhlith manteision eraill.⁵⁰

75. Gofynnwyd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a yw'r Gyllideb Ddrafft yn gwneud dyraniadau ychwanegol ar gyfer Tŷ Hafan a Thŷ Gobaith ac, os nad yw, beth yw ei hymateb i'w pryderon.

"We are very confident that we are going to be able to help them out, and I'm going to be making an announcement on it, actually, not next week [...] but the following week [...] it's good news."⁵¹

76. Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 25 Ionawr 2022, cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad o adolygiad cyllid hosbisau i ariannu hosbisau plant ar gyfraniad 21 y cant o'r holl gostau gofal y cytûn. Bydd £888,000 yn cael ei ddyrannu o'r Gyllideb Ddrafft i Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith yn gylchol o 2022-23 yn unol â hynny.⁵²

Cymorth i blant anabl

77. Mae Naratif Manwl Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn nodi bod "mwy na t[h]ri o bob pump o deuluoedd plant anabl wedi gweld lefelau cymorth ffurfiol ac anffurfiol yn gostwng ers argyfwng y coronafeirws, gyda llawer yn dal i fod heb fathau hanfodol o gymorth".⁵³ Gofynnwyd

⁴⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 198](#)

⁵⁰ Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith, ['Ymateb Tŷ Hafan a Tŷ Gobaith i'r ymgynghoriad: Cyllideb Ddrafft 2022/23](#)

⁵¹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 201](#)

⁵² Senedd Cymru, ['Y Cyfarfod Llawn: 25/01/2022'](#), paragraffau 164 - 171

⁵³ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2022-23](#), Rhagfyr 2021, tudalen 71

i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol sut y rhoddir sylw i hyn yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23.

78. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y bydd y cyllid ychwanegol £1.3 biliwn ar gyfer y GIG a £0.75 biliwn ar gyfer llywodraeth leol yn y Gyllideb Ddrafft yn cefnogi ystod o wasanaethau craidd ac yn gwella gwasanaethau craidd, ac y bydd hynny, wrth gwrs, yn cynnwys gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd. Cyfeiriodd at gyllid ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn y gyllideb 'Cymru iachach', y gyllideb 'cefnogi plant', a'r llinell wariant yn y gyllideb ar gyfer iechyd meddwl. Nododd hefyd effaith dyraniadau cyllideb llai, megis Ymddiriedolaeth Cronfa'r Teulu, Whizz-Kids, a chyllid seibiant brys a seibiannau byr.⁵⁴

Ein barn ni

79. Rydym yn croesawu dyraniad £6.63 miliwn Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r rhaglen Pwysau Iach: Cymru Iach, ac rydym yn edrych ymlaen at graffu ar y cynllun cyflawni pan gaiff ei gyhoeddi ym mis Mawrth. Rydym hefyd yn falch bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod effaith gordewdra, ei fod yn cael effaith anghymesur ar y bobl dlotaf yng Nghymru, ac rydym yn bwriadu mynd ar drywydd y mater ar fyrder.

80. Fodd bynnag, rydym yn parhau i bryderu nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi digon o sylw i atal gordewdra ymhlith plant rhag datblygu yn y lle cyntaf. Wedi'r cyfan, mae diddordeb hirdymor plant a'u cyfranogiad mewn chwaraeon ac ymarfer corff yn aml yn dechrau yn yr ysgol. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gall sicrhau bod ysgolion yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwaraeon a chyfleoedd ymarfer corff eraill i blant fel rhan o'i ffrwd waith grŵp gweithgareddau dyddiol sydd newydd ei sefydlu.

Argymhelliad 5. Fel rhan o'i ffrwd waith grŵp gweithgareddau dyddiol a gweithgareddau gwerthuso neu fonitro perthnasol y mae'n eu cynnal, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gall sicrhau bod pob ysgol yn cynnig ystod o gyfleoedd chwaraeon ac ymarfer corff o ansawdd uchel i'w disgyblion fel rhan o'i strategaethau ehangach i atal gordewdra ymhlith plant.

Diogelu

Risgiau i blant a phobl ifanc

81. Nododd ymateb NSPCC Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft fod y pandemig a'r cyfnodau clo dilynol yn dwysáu risgiau i blant a phobl ifanc ac y bu cynnydd 12 y cant ar gyfartaledd mewn cysylltiadau â'i llinellau cymorth o gymharu hynny â chyn y cyfnodau

⁵⁴ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 205 - 207](#)

clo. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynghylch salwch meddwl, cam-drin corfforol, cam-drin domestig a cham-drin plant yn rhywiol.⁵⁵ Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol sut y mae'r Gyllideb Ddrafft yn adlewyrchu cynnydd ymddangosiadol y risgiau diogelu sylweddol hynny i blant.

82. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod grantiau gwerth £1.6 miliwn ar gael i awdurdodau lleol yn 2021-22 ar gyfer cronfa ymyriadau teuluol i gefnogi llesiant plant a theuluoedd drwy gymysgedd o gymorth ymarferol ac uniongyrchol er mwyn ceisio dargyfeirio achosion yn ddiogel o'r gofrestr amddiffyn plant. Yn 2022-23, mae'r gronfa diwygio gofal cymdeithasol yn cynnwys cyllid dangosol £3.2 miliwn i barhau â'r gronfa ymyriadau ar gyfer awdurdodau lleol.⁵⁶

Cynllun datrysiadau cymorth i rieni y tu allan i'r llys

83. Disgwylir i Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ddod i rym ym mis Mawrth 2022. O dan y Ddeddf, ni fydd amddiffyniad cosb resymol ar gael i rieni (neu oedolion sy'n gweithredu in loco parentis) mwyach fel amddiffyniad i gyhuddiad ymosod cyffredin neu guro plant. Roedd dogfennau atodol y Bil yn cynnwys cyllid ar gyfer cynllun 'Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys', i'w ddefnyddio pan fo'r heddlu'n penderfynu ei bod yn fwy priodol gwneud hynny. Dyrannwyd rhwng £162,000 a £473,000 y flwyddyn i'r cynllun yn wreiddiol, ond mae'r dyraniad yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23 bron dwywaith hynny. Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol pam mae'r costau amcangyfrifedig wedi cynyddu mor sylweddol.

84. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y canlynol wrthym:

"When we indicated a sum of money for this scheme, that was done without having done the intensive work that's been done since."

Mae'r gwaith hwnnw'n cynnwys nifer o grwpiau gweithredu strategol, gan gynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac awdurdodau lleol. Aeth ymlaen i esbonio mai'r hyn a gafodd ei greu oedd cynllun a oedd yn costio llawer mwy na'r hyn a ystyriwyd yn wreiddiol, ond ei fod o ansawdd uchel iawn. Mae wedi dod yn sgil gwaith arbenigwyr sydd wedi llunio'r cynnig hwn.⁵⁷

Ein barn ni

⁵⁵ NSPCC Cymru, **Tystiolaeth NSPCC Cymru i lywio gwaith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2022-23'**

⁵⁶ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 211 - 212**

⁵⁷ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 243**

85. Rydym yn nodi ymatebion a thystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog. Byddwn yn parhau i fonitro effaith y pandemig ar ddiogelu yn ystod ein gwaith. Yn yr un modd, byddwn yn monitro gweithrediad Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020, gan gynnwys effaith y cynllun cymorth rhianta ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, wrth i newidiadau i'r gyfraith ddod i rym.

Plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal

86. Mae'r cyfrifoldeb am ganlyniadau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn rhan o bortffolio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o wariant cyhoeddus ar 'blant sy'n derbyn gofal' (cyfeirir at blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn aml fel 'plant sy'n derbyn gofal' mewn deddfwriaeth, dogfennau'r llywodraeth, ac ati) yn dod o'r Grant Cynnal Refeniw o'r MEG Llywodraeth Leol.

87. Mae ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ystyried "cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal", ochr yn ochr ag ymrwymadau eraill megis darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth sydd ar ffiniau gofal, a dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wella canlyniadau i blant sy'n gadael gofal yn ei hymateb i Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant.⁵⁸ Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad at y naill na'r llall yn y Gyllideb Ddrafft.

88. Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol lle yn y Gyllideb Ddrafft y dyrannwyd y costau sy'n ymwneud ag ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y "cyfleoedd radical i ddiwygio" y cyfeirir atynt yn y Rhaglen Lywodraethu.

89. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod y Gyllideb Ddrafft yn cyhoeddi cronfa diwygio gofal cymdeithasol newydd gwerth £45 miliwn i fuddsoddi yn y gwaith i gyflawni ymrwymadau ein rhaglen lywodraethu sy'n berthnasol i wasanaethau plant. Mae £10 miliwn wedi'i ddyrannu i gynlluniau Llywodraeth Cymru i atal asiantaethau maethu preifat neu wasanaethau gofal preswyl rhag gwneud elw sylweddol o ofalu am blant. Bydd y cyllid £10 miliwn yn galluogi trawsnewid y darparwyr sector preifat presennol yn ddarparwyr nid-er-elw.⁵⁹ Ychwanegodd fel a ganlyn:

⁵⁸ Llywodraeth Cymru, '[Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2020-21](#)', Tachwedd 2021

⁵⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 216 - 218](#)

*"we'll be investing £3 million on service transformation and preventative models and approaches, which will help support children remaining with their families. We've also got an additional £21 million investment over 2022-25 to support delivery of our commitments for children's services."*⁶⁰

Ein barn ni

90. Mae'r Llywodraeth wedi nodi diwygiad radical i wasanaethau plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Fodd bynnag, nid ydym yn argyhoeddedig bod y trywydd ar gyfer y diwygiad hwnnw a'r cyllid i'w gefnogi yn cyd-fynd ag ymrwymiadau'r Llywodraeth. Mae plant sydd â phrofiad o ofal ymhlith y mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Rydym yn pryderu nad yw'r gyllideb hon yn nodi'n ddigon clir sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w bywydau.

91. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i nodi'n glir sut, a phryd, y bydd yn cyflawni'r ymrwymiadau a wnaeth yn ei Rhaglen Lywodraethu ac yn ei hymateb ym mis Tachwedd 2021 i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru.

Argymhelliad 6. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru nodi amserlen glir a manwl ar gyfer ei chynlluniau i ddiwygio gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu a'r ymateb i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru. Mae'n rhaid i'r amserlen gynnwys cerrig milltir gweithredu allweddol a gofynion cyllid cysylltiedig.

Blynyddoedd cynnar a gofal plant

92. Yn ei Chytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn dwy flwydd oed,⁶¹ rhieni mewn addysg/hyfforddiant, a rhieni ar ffiniau gwaith.⁶² Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol pryd y byddai'r diwygiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith, a faint o gyllid cyfalaf a refeniw ychwanegol y bydd ei angen ar gyfer yr addewidion hyn.

93. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y canlynol wrthym:

⁶⁰ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 219](#)

⁶¹ Llywodraeth Cymru '[Y Cytundeb Cydweithio 2021](#)', Tachwedd 2021, tudalen 3

⁶² Llywodraeth Cymru, '[Y Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad](#)', Rhagfyr 2021, tudalen 3

"[...] extending childcare for parents in education could cost in the region of £15 million to £20 million over the next three years, and the funding has been included in the budget for this purpose."⁶³

94. Ychwanegodd y nododd adroddiad annibynnol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021,⁶⁴ y dylai'r Llywodraeth ystyried rhoi rhywfaint o arian i gronfeydd eraill sy'n bodoli eisoes, yn ogystal ag ehangu drwy'r cynnig gofal plant.⁶⁵

95. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod ehangu gofal plant i blant dwy flwydd oed yn rhan o gynllun 10 mlynedd y Llywodraeth ar gyfer addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, mae capasiti'r sector i fodloni lefelau'r galw'n bryder i'r Llywodraeth; mae'n bosibl y bydd angen datblygu ac agor lleoliadau gofal plant newydd, yn ogystal â hyfforddi gweithwyr gofal plant ychwanegol. Ni allai'r Llywodraeth ehangu'r ddarpariaeth i bob plentyn dwy flwydd oed ar unwaith oherwydd diffyg staff. Aeth ymlaen i gadarnhau bod cyllid cyfalaf £20 miliwn yn 2022-23, £25 miliwn yn 2023-24, a £25 miliwn yn 2024-25, sy'n rhan o'r MEG Addysg a'r Gymraeg.⁶⁶

96. Ar 25 Ionawr 2022, gosododd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ei adroddiad ar y rhwystrau gofal plant y mae rhieni sy'n gweithio'n eu hwynebu. Yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor o blaid ymrwymiad Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwy flwydd oed "gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu ac atgyfnerthu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg".⁶⁷ Fodd bynnag, aeth ymlaen i nodi'r heriau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu gofal plant:

"Mae'r pryderon mwyaf ynghylch recriwtio a chadw staff yn ymwneud â lefel isel y cyflog, a thelerau ac amodau gweithwyr gofal plant, y mae darparwyr, gweithwyr ac undebau am iddynt gael eu gwella. Mae rôl gweithwyr gofal

⁶³ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 230**

⁶⁴ Mae'n bosibl bod y Gweinidog yn cyfeirio at: Llywodraeth Cymru, '**Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant: Blwyddyn 3**', Mawrth 2021, a Llywodraeth Cymru '**Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: blwyddyn 4 (canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg)**', Tachwedd 2021

⁶⁵ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 230**

⁶⁶ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 230-233**

⁶⁷ Senedd Cymru, '**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Gwarchod y dyfodol**', Ionawr 2022, tudalen 22

*plant yn natblygiad y blynyddoedd cynnar yn hanfodol; ond nid yw'r cyflog yn cyfateb i gyfrifoldebau'r rôl."*⁶⁸

Ein barn ni

97. Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod maint yr her o ran ehangu darpariaeth gofal plant. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ehangu lleoliadau gofal plant presennol, a chreu rhai newydd. Rydym yn croesawu'r cyllid cyfalaf ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i glustnodi at y diben hwn. Rydym yn cytuno â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol mai'r gweithlu gofal plant yw'r prif rwystir o bosibl i'r Llywodraeth gyflawni'r addewid hon. Rydym yn cydnabod y gwaith a wnaeth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y mater pwysig hwn.

98. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gall sicrhau bod digon o gyllid ar gael i wella capasiti'r gweithlu gofal plant. Bydd angen hyn, yn ogystal â chyllid cyfalaf hael, os bydd Llywodraeth Cymru yn ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn llwyddiannus.

Argymhelliad 7. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod digon o gyllid wedi'i neilltuo i ddatrys problemau capasiti yn y gweithlu gofal plant i'w alluogi i ehangu gofal plant yn llwyddiannus fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.

Adfer wedi'r pandemig

Y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

99. Mae papur y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi y bydd cyllidebau referniw'r GIG yn cynyddu £824 miliwn yn 2022-23 gyda rhagor o gynnydd yn y ddwy flynedd ddilynol. Yn benodol:

"cyllid referniw cylchol o £190m er mwyn helpu'r GIG i adfer, gan gynnwys £20m y flwyddyn i helpu i roi dull seiliedig ar werthoedd ar waith mewn perthynas ag adfer yn y tymor canolig, gan ganolbwyntio ar wella canlyniadau sy'n bwysig i gleifion. Byddwn hefyd yn dyrannu £180m ar sail gylchol o 2022-23 ymlaen er mwyn helpu'r GIG i ymdopi ag effaith ariannol y

⁶⁸ Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Gwarchod y dyfodol!', Ionawr 2022, tudalen 50

pandemig ar ei sefyllfa ariannol sylfaenol, gan gynnwys cydnabod yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar gynhyrchiant ac effeithlonrwydd."⁶⁹

100. Gofynnwyd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a fydd yr ymrwymiadau cyllid hyn yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud yn benodol â gofal iechyd arferol plant a phobl ifanc a'u hanghenion yn yr ôl-groniad o ganlyniad i'r pandemig. O ran rhestrau aros, dywedodd y Gweinidog wrthym fod y Llywodraeth yn seilio'r flaenoriaeth ar flaenoriaeth glinigol, ni waeth am oedran. Dywedodd fod cronfeydd arbennig ar gael a llwybrau ar gyfer meysydd arbenigol iawn, ac mae gofyniad yno i gynnwys gwasanaethau pediatriig penodol yn rhan o hynny. Aeth ymlaen i nodi bod dyletswydd ar fyrddau iechyd i sicrhau eu bod yn parchu adnoddau teg i blant a phobl ifanc, ac y bydd adferiad pediatriig, wrth gwrs, yn rhan o'r cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio cenedlaethol.⁷⁰

101. Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol £36.6 miliwn i helpu teuluoedd a phlant i adfer ar ôl y pandemig. Cyfeiriodd y datganiad at gyllid £20 miliwn i blant a phobl ifanc ddatblygu eu "lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol" a fyddai'n cynnwys cyfleoedd "i chwarae ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a chorfforol y tu allan i ddysgu ffurfiol".⁷¹ Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i ni na fyddai'r cyllid hwn yn parhau yn 2022-23:

"[...] the additional £20 million in funding is in support of what we call the winter of well-being, building on the summer of fun, and this is available until the end of this financial year [...] it is only available for this financial year, and it's a direct response to the pandemic [...]"⁷²

Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a'r Gymraeg

102. Diweddarodd Llywodraeth Cymru ei chynllun adfer addysg o COVID-19, sef Adnewyddu a diwygio, ddiwethaf ym mis Medi 2021.⁷³ Mae'n amlinellu y darparodd Llywodraeth Cymru £220 miliwn i'r sector addysg yn 2020-21 a £150 miliwn (£189 miliwn bellach) yn 2021-22 i ymateb i'r pandemig. Mae Cyllideb Ddrafft 2022-23 yn cynnwys rhagor o gyllid ar gyfer rheoliaeth y sector addysg o'r pandemig, a'i adferiad ohono. Mae ymchwil yn dangos bod yr aflonyddwch i addysg

⁶⁹ Llywodraeth Cymru, '**Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23**', Rhagfyr 2021, tudalen 25

⁷⁰ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22. Cofnod y Trafodion, paragraffau 171 - 172**

⁷¹ Llywodraeth Cymru, '**Datganiad Ysgrifenedig: £36.6m i helpu teuluoedd a phlant i adfer o'r pandemig**', Hydref 2021

⁷² **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13/01/22. Cofnod y Trafodion, paragraffau 240 - 241**

⁷³ Llywodraeth Cymru, '**Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr**', Medi 2021

oherwydd y pandemig wedi cael yr effaith fwyaf ar ddisgyblion difreintiedig. Mae iechyd a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc wedi dioddef hefyd.⁷⁴

103. Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg sut yr effeithiodd y pandemig parhaus ar ei ddull ef a'r Llywodraeth ehangach o osod y gyllideb hon, ac i ba raddau y mae'n fodlon bod ganddo ddigon o adnoddau i gyflawni ei amcanion.

*"Wales in 2020-21 and in this financial year has received, obviously, additional allocations from the UK Government to deal with the many, many challenges that COVID has brought [...] But, those consequentials aren't recurring. [...] So, from the 2023-24 financial year, the Wales reserves are going to be used to manage that in-year set of challenges."*⁷⁵

104. Dywedodd y Gweinidog wrthym nad yw'r Llywodraeth yn rhagweld y bydd yn gwneud dyraniadau ychwanegol sylweddol rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol. Yn y bôn, mae wedi defnyddio'r holl gyllid sydd ar gael. Aeth ymlaen i ddweud, o ran ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu, ei fod yn meddwl bod y Gyllideb Ddrafft yn darparu'r adnoddau ar gyfer cyflawni hynny.⁷⁶

105. Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd meysydd penodol yn ei bortffolio y byddai wedi dyrannu mwy o arian iddynt oni bai am angenrheidiau rheoli'r pandemig. Dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

"you're going to struggle to find an education Minister who is going to sit here and tell you that he or she couldn't usefully make creative and productive use of additional funding".

Fodd bynnag, siaradodd am un fenter benodol y byddai wedi ystyried ei hymestyn pe bai cyllid yn ei alluogi i wneud hynny: lleoli Athrawon Newydd Gymhwyso mewn ysgolion i helpu'r athrawon i gwblhau eu hyfforddiant a'u cyfnod sefydlu, a darparu capasiti ychwanegol i ysgolion ymateb i brinder staff.⁷⁷

106. Yn y Gyllideb Ddrafft, dim ond £37.5 miliwn sydd ar gyfer y Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau a chyllid arall ar gyfer llesiant dysgwyr. Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac

⁷⁴ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2022-23](#), Rhagfyr 2021, tudalen 69

⁷⁵ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 7](#)

⁷⁶ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 8](#)

⁷⁷ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 12 - 15](#)

Addysg pam mae'r swm a ddyrannwyd yn 2022-23 i'r sector addysg reoli'r pandemig ac ymateb iddo'n llai nag yn 2020-21 a 2021-22. Dywedodd y canlynol:

[...] there were large sums of money in both those financial years that were non-recurring. So, we spent that. But what we have done is we've ensured that, wherever possible, in the context of those budgetary restrictions, that at least the core elements of the renew and reform programme—and that programme has contributed very significantly to those large figures in the last two years—that the core elements of that programme, at least, continue.”⁷⁸

107. Y llynedd, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i CBAC, corff dyfarnu mwyaf Cymru, fel y gallai ildio'n rhannol y taliadau a gyfeirir at ysgolion fel arfer wrth ddyfarnu cymwysterau. Gofynnwyd i'r Gweinidog gadarnhau a oedd cyllid wrth gefn wedi'i neilltuo ar gyfer arholiadau os oes angen eu canslo eto eleni. Dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai unrhyw gyllid y byddai ei angen ar gyfer hynny'n cael ei ystyried yn rhan o'r broses gyllidebu yn ystod y flwyddyn o'r gronfa ganolog honno. Felly, byddai arian i wneud hynny, pe bai ei angen, ond nid yw'r Llywodraeth yn cynllunio ar y sail honno.⁷⁹

108. Gwnaethom bwyso ar y Gweinidog ynghylch cyllid ar gyfer mesurau sy'n lleihau effaith COVID ar absenoldeb disgyblion a staff mewn ysgolion, megis awyru. Nododd y Gweinidog gronfa awyru Llywodraeth Cymru, a roddwyd ar waith yn ystod hydref 2021. Dywedodd wrthym y cyhoeddodd gyllid ychwanegol sylweddol iawn o safbwynt cyfalaf - £50 miliwn fel rhan o'r pecyn £100 miliwn a mwy - a'i fod ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer awyru, iechyd a diogelwch a diogelwch ac ati. Fodd bynnag, ychwanegodd fod hynny'n un o'r rhesymau y byddai wedi bod yn dda pe bai cyllid COVID parhaus wedi'i glustnodi ar gyfer Llywodraethau ar draws y DU yn y setliad, oherwydd y bydd pwysau parhaus, yn amlwg. Nid yw hynny wedi digwydd.⁸⁰

109. Mae'r sector Addysg Uwch (AU) yn wynebu her debyg. Dywedodd Prifysgolion Cymru yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, yn wahanol i 2020-21, na ddarparwyd cyllid ychwanegol i helpu prifysgolion i ymateb i COVID yn 2021-22. ⁸¹ Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg sut y byddai'n ymateb i bryderon Prifysgolion Cymru.

⁷⁸ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22. Cofnod y Trafodion, paragraff 38**

⁷⁹ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22. Cofnod y Trafodion, paragraff 41**

⁸⁰ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22. Cofnod y Trafodion, paragraff 49**

⁸¹ Prifysgolion Cymru, '**Ymateb Prifysgolion Cymru i alwad Pwyllgor Cyllid y Senedd am wybodaeth am gynigion ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23**', Tachwedd 2021, tudalen 3

*"[...] rŷn ni wedi darparu cyllideb drwy law HEFCW o ran newidiadau awyru, ac wedi darparu hefyd monitors [...] Fel rhan o'r winter of well-being, gwnaeth y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ddatgan bod arian wedi mynd o hwnnw i HEFCW i gyfrannu tuag at nod y cynllun hwnnw. Mae gwaith wedi digwydd yn y flwyddyn hon drwy'r COVID reserve—rhyw £2 miliwn ychwanegol drwy'r cynllun renew and reform. Mae hynny wedi bod yn gweithio gyda phob lefel o'r sector, yn cynnwys addysg uwch [...] o'r flwyddyn ariannol yma ymlaen, bydd dim arian wedi'i glustnodi yn y setliad o San Steffan, felly mae'r adnoddau rŷn ni'n eu darparu o nawr ymlaen yn dod o'n cyllideb graidd ni."*⁸²

110. Mae Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad ei bod yn ymddangos bod effaith y pandemig "wedi bod fwyaf negyddol i'r rhai yn y sector galwedigaethol, yn enwedig ar lefelau cymwysterau is, ac i ddysgwyr sydd eisoes yn agored i niwed".⁸³ Gofynnwyd i'r Gweinidog a yw ei Gyllideb Ddrafft yn ystyried yr heriau hynny.

*"Yes—yes, it does. I think what we've learnt from everything we've seen in terms of the impact of the pandemic is consistent with what the Audit Wales report tells us. And the funding that we've made available for renew and reform has reflected the particular challenges in post-16 transition years and for vulnerable learners [...]"*⁸⁴

Ein barn ni

111. Rydym yn cofnodi ein diolch i'r holl staff sy'n gweithio i'r GIG, ysgolion, awdurdodau lleol, colegau, prifysgolion a'r trydydd sector, ac ochr yn ochr â hwy, am eu gwaith amhrisiadwy drwy gydol y pandemig. Rydym hefyd yn cydnabod bod y pandemig wedi achosi lefelau digynsail o aflonyddwch i ddysgwyr o bob oed, ac yn nodi cymaint o waith y mae wedi bod i ddysgwyr addasu i ddulliau cwbl wahanol o gyflwyno addysg.

112. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adferiad COVID. Nid ydym yn diystyru maint y dasg.

113. Byddwn yn parhau i fonitro effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc. Rydym yn pryderu efallai na fydd plant yn cael eu cyfran deg o gyllid iechyd o ganlyniad i asesiadau blaenoriaeth glinigol ar gyfer cyllid adferiad iechyd wedi'r pandemig. Ac, wrth gwrs, byddwn yn parhau i roi

⁸² [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 110](#)

⁸³ Archwilio Cymru, '[Darlun o Addysg Uwch ac Addysg Bellach](#)', Hydref 2021, tudalen 41

⁸⁴ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 135](#)

syllw arbennig i effaith adferiad wedi'r pandemig ar ddarpariaeth addysgol. Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru ein helpu i wneud hynny drwy ddarparu data perthnasol yn rheolaidd.

Argymhelliad 8. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn bob chwe mis am adferiad wedi'r pandemig mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys data sydd ar gael am wasanaethau iechyd adferiad wedi'r pandemig ac effaith adferiad wedi'r pandemig ar ddarpariaeth addysgol (cynnydd addysgol, cyrhaeddiad, anghydraddoldebau, ac ati).

Cyllid ysgolion

Y setliad llywodraeth leol

114. Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg i ba raddau y mae'n fodlon bod digon o adnoddau i awdurdodau lleol ddarparu ar gyfer cyllidebau ysgolion. Dywedodd y Gweinidog y canlynol:

"Well, the answer to your question is 'yes'. [...] the settlement that the Minister for finance has announced this year is, I think, on any measure, a very significant increase in terms of the annual core funding that the Welsh Government provides to our partners, and I think probably more than meets the needs that were outlined by our partners in those discussions."⁸⁵

115. Ariennir cyllidebau craidd ysgolion yn bennaf gan y setliad llywodraeth leol heb ei neilltuo. Mae hyn yn golygu mai awdurdodau lleol, yn hytrach na Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cyllid y mae ysgolion yn ei gael. Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg a yw'n disgwyl i awdurdodau lleol flaenoriaethu ysgolion o ran sut y maent yn dyrannu cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol, a pha gamau y gallai eu cymryd os na fydd rhai awdurdodau'n gwneud hynny.

"[...] it's a very well-established principle in Wales that we allow our local authorities to make the judgments about how they spend those funds. [...] we have ongoing discussions with them, and all our colleagues recognise how important it is to make sure that our school system is fully funded, and the settlement certainly permits that to happen. We'll obviously continue to

⁸⁵ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 52**

monitor and publish the data that we do around how those budgets are set and how the expenditure happens in schools across Wales."⁸⁶

116. Mae'r setliad llywodraeth leol dros dro yn rhoi cynnydd 9.4 y cant i awdurdodau lleol yn 2022-23. Mae ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid wedi dangos bod lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer cyllidebau ysgolion yn destun pryder mawr i benaethiaid a llywodraethwyr. Ar y llaw arall, mae'r data diweddaraf ar lefel y cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan ysgolion yn dangos cynnydd sydyn ymddangosiadol o £32 miliwn (£70 y disgybl) ym mis Mawrth 2020 i £181 filiwn (£393 y disgybl) ym mis Mawrth 2021.⁸⁷ Cydnabu'r Gweinidog mai'r sefyllfa gyffredinol ar draws ysgolion Cymru yw y delir oddeutu £181 filiwn yn y cronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd. Roedd hynny'n wir ym mis Mawrth y llynedd, ac mae hynny'n gynnydd sylweddol iawn tua £140 miliwn mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol.⁸⁸

117. Gofynnwyd i'r Gweinidog sut y mae'r Llywodraeth yn monitro'r arian hwn i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei wario ar y rheng flaen.

*"Well, school leaders work very constructively, in my experience, with local education authorities in the questions around budgets, [...] for this year and with those reserves, that will provide, I hope, some room for those decisions to be made.[...] On the question that you put about data and so on and monitoring, we have existing arrangements that do this. So, we will continue those arrangements. We collect the data, we assess it and we publish it, and that will continue."*⁸⁹

Y Grant Datblygu Disgyblion

118. Ar hyn o bryd mae ysgolion yn derbyn £1,150 o gyllid ychwanegol y flwyddyn drwy'r Grant Datblygu Disgyblion, ar gyfer pob disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'n rhaid defnyddio'r cyllid hwnnw i ariannu strategaethau addysgol sy'n targedu gwella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig yn anghymesur, yn benodol y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal.⁹⁰

119. Ochr yn ochr â'r Grant Datblygu Disgyblion, sy'n mynd i ysgolion, gall teuluoedd dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wneud cais am Grant Datblygu Disgyblion -

⁸⁶ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 54](#)

⁸⁷ Llywodraeth Cymru, '[Cronfeydd wrth gefn ysgolion: ar 31 Mawrth 2021](#)', Tachwedd 2021

⁸⁸ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 55](#)

⁸⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 57 - 58](#)

⁹⁰ Llywodraeth Cymru, '[Grant Amddifadedd Disgyblion: Canllawiau hanfodol](#)', Mawrth 2015, tudalen 4

Mynediad. Mae'r gronfa Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad ar agor, ar hyn o bryd, i deuluoedd plant yn y dosbarth Derbyn, blynyddoedd 1, 3, 5, 7, 8, 9, 10 ac 11. Gall teuluoedd wneud cais am £125 (£200 os yw'r plentyn yn dechrau blwyddyn 7) ar gyfer gwisg ysgol, offer, cit chwaraeon a chit ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ysgol.⁹¹

*"Dywedodd y Gweinidog wrthym mai £13 miliwn fydd cyllideb y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad ar gyfer 2022-23, mewn cymhariaeth ag £1.7 miliwn yn 2019-20. Aeth ymlaen i ddweud wrthym fod y Llywodraeth yn ehangu y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad, fel ei fod ar gael i deuluoedd plant ym mhob blwyddyn, nid bob yn ail flwyddyn."*⁹²

120. Mae £20 miliwn ychwanegol yn llinell wariant Grant Datblygu Disgyblion Cyllideb Ddrafft 2022-23. Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg pam mae angen yr arian ychwanegol hwnnw, ac a oedd yn benderfyniad polisi gweithredol neu am fod mwy o ysgolion yn gymwys i gael cyllid ar gyfer mwy o ddisgyblion.

*"This is definitely an active policy decision. There are choices to be made here and we've made a very clear choice to extend the funding available to PDG by £20 million, which takes it up to £130 million every year. Based on the pupil-level annual schools census data for 2021, on which PDG is calculated, we'll be expecting a significant increase in learners being eligible—about 18,000. We've made the commitment to continue applying the existing rate of £1,150 to each of those newly eligible individuals."*⁹³

121. O dan y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn cyflwyno prydau ysgol am ddim i'r disgyblion ysgol gynradd ifancaf o fis Medi 2022, a'r holl ddisgyblion ysgol gynradd o fis Medi 2023 ymlaen.⁹⁴ Ar hyn o bryd, mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn gysylltiedig â'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cyllid y Grant Datblygu Disgyblion i ysgolion. Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg a fyddai prydau ysgol am ddim i bawb â goblygiadau i'r Grant Datblygu Disgyblion, ac a allai gadarnhau y byddai'r Grant Datblygu Disgyblion yn parhau ar ôl cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb.

⁹¹ Llywodraeth Cymru, '[Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad](#)'

⁹² [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 86](#)

⁹³ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 86](#)

⁹⁴ Llywodraeth Cymru '[Y Cytundeb Cydweithio 2021](#)'; Tachwedd 2021, tudalen 3

"it's an eligibility criterion that applies across a range of Government policies, really [...] changing the basis on which free school meals are provided does have quite a significant effect on that range of policy areas [...] We're also doing a piece of work, which we'll be talking more about in the spring, around equity in education generally, and so, those two things will need to be looked at in the round [...]"⁹⁵

122. Aeth y Gweinidog ymlaen i gadarnhau y byddai'r Grant Datblygu Disgyblion yn parhau ar ôl cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb.⁹⁶

Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif gynt)

123. Mae papur tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu "Cyfalaf cyffredinol o £300m y flwyddyn o 2022-23 i drawsnewid amgylcheddau dysgu drwy ein Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu o 1 Ionawr 2022), yn cynnwys creu ysgolion carbon sero net."⁹⁷ Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg a yw'r cynnydd cyllid cyfalaf hwn oherwydd bod prosiectau carbon sero'n ddrutach, yn hytrach na bwriad y Llywodraeth i gefnogi mwy o brosiectau.

124. Esboniodd y Gweinidog mai cyfraniad safonol Llywodraeth Cymru i'r rhan fwyaf o brosiectau yn y maes hwn yw 65 y cant o'r gyllideb. Fodd bynnag, yn dilyn cynllun carbon sero net peilot, mae'r Llywodraeth wedi darganfod y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r fanyleb uwch ar gyfer sero net.⁹⁸ Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

"[...] we will need to continue to meet the 100 per cent of that premium in order that our partners are not discouraged, if you like, bring forward proposals of the sort that we want. That will reduce over time as the specification becomes standard."⁹⁹

⁹⁵ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 88 - 90](#)

⁹⁶ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 104](#)

⁹⁷ Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2022-23 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg', Rhagfyr 2021, tudalen 6

⁹⁸ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 27](#)

⁹⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 27](#)

125. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn dal i allu cyflwyno'r rhaglen fel y cynlluniwyd i 200 o ysgolion yn y band presennol, er gwaethaf cost ychwanegol y fanyleb newydd.¹⁰⁰

Ein barn ni

Y setliad llywodraeth leol

126. Mater allweddol i'n Pwyllgor blaenorol yn y Bumed Senedd oedd a oedd y setliad llywodraeth leol yn rhoi digon o arian i alluogi awdurdodau lleol i roi darpariaeth ddigonol ar gyfer cyllidebau ysgolion.¹⁰¹ Yn ei adroddiad yn 2019, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad i gyllid ysgolion, a wnaeth wedi hynny ym mis Hydref 2019. Roedd yr adolygiad dan arweiniad yr economegydd Luke Sibieta, a chafodd ei gyhoeddi ym mis Hydref 2020.¹⁰²

127. Gohiriwyd ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Sibieta oherwydd y pandemig. Wrth i'w ffocws droi at adferiad o'r pandemig, rydym yn annog y Llywodraeth i gyhoeddi ei hymateb i'r adolygiad ac esbonio sut y bydd yn bwrw ymlaen â'r argymhellion.

Argymhelliad 9. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymateb i adolygiad Sibieta o gyllid ysgolion a nodi sut y bydd yn bwrw ymlaen â'r argymhellion.

128. Nodwn sylwadau Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ynghylch rhoi'r cyfrifoldeb i awdurdodau lleol am wario arian y setliad llywodraeth leol fel y bo'n addas yn eu barn hwy. Fodd bynnag, nid ydym yn argyhoeddedig bod dull annibynnol yn gwbl briodol. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am berfformiad ysgolion yng Nghymru yn y pen draw, ac mae wedi gwneud nifer o ymrwymadau mewn perthynas â darpariaeth addysgol yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae'n amlwg bod y ffordd yr ariennir ysgolion yn hollbwysig er mwyn i Lywodraeth Cymru wella safonau addysgol. Gofynnwn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg egluro sut y mae'n gweithio ochr yn ochr â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ac awdurdodau lleol i sicrhau bod gan ysgolion yr arian y mae arnynt ei angen i gyflawni ymrwymadau'r Llywodraeth.

Argymhelliad 10. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut y mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn gweithio ochr yn ochr â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ac awdurdodau

¹⁰⁰ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 28**

¹⁰¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllido Ysgolion yng Nghymru', Gorffennaf 2019, tudalen 36

¹⁰² Llywodraeth Cymru, 'Adroddiad annibynnol yn rhoi dadansoddiad manwl o'r system cyllido ysgolion yng Nghymru ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau', Hydref 2020

lleol i sicrhau bod ysgolion yn cael cyllid digonol i gyflawni ymrwymadau polisi Llywodraeth Cymru.

Y Grant Datblygu Disgyblion

129. Rydym yn falch bod £20 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion i helpu ysgolion i ddatblygu a darparu ymyriadau wedi'u targedu sydd o fudd i blant o deuluoedd incwm isel. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Grant Datblygu Disgyblion yn parhau i gael ei ddefnyddio at y diben hwn, beth bynnag yw'r newidiadau i brydau ysgol am ddim a pholisiau cysylltiedig yn y dyfodol.

Argymhelliad 11. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Grant Datblygu Disgyblion yn parhau i gael ei ddefnyddio i ddatblygu a darparu ymyriadau wedi'u targedu sydd o fudd i blant o deuluoedd incwm isel a phlant sydd wedi'u mabwysiadu a phlant â phrofiad o fod mewn gofal.

130. Hefyd, rydym yn croesawu'r awgrym gan y Gweinidog y bydd cynllun y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad yn cael ei ehangu i bob grŵp blwyddyn. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru nodi rhagor o fanylion am sut y bydd y cynllun yn gweithio a phryd y bydd y newidiadau'n dod i rym.

Argymhelliad 12. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro manylion am ehangu'r cynllun Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad, gan gynnwys newidiadau i feini prawf cymhwysedd (gan gynnwys grwpiau blwyddyn), faint o gyllid fydd ar gael i ddisgyblion cymwys, pryd y bydd y newidiadau'n dod i rym a'r effaith cost debygol.

131. Fodd bynnag, o'r dystiolaeth rydym wedi'i chlywed gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ychwanegol i'r Grant Datblygu Disgyblion oherwydd ei bod yn rhagweld y bydd 18,000 yn fwy o ddisgyblion yn gymwys i'w gael. Nid ydym yn argyhoeddedig bod y cyllid ychwanegol hwn yn benderfyniad polisi gweithredol. Ymddengys ei fod am fod mwy o deuluoedd yn cael budd-daliadau penodol, yn hytrach nag ehangu'r rhaglen.

132. Hefyd, rydym yn aneglur ynghylch y goblygiadau ymarferol i deuluoedd, ysgolion, awdurdodau lleol ac i Lywodraeth Cymru o dorri'r cysylltiad rhwng y Grant Datblygu Disgyblion a phrydau ysgol am ddim. Rydym yn deall bod gwaith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn parhau a gofynnwn i'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am ei chanfyddiadau pan fyddant ar gael.

Argymhelliad 13. Cyn gynted ag y gall wneud hynny, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro'r canlynol mewn perthynas ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ehangu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd:

- A fydd newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion neu'r Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad.
- Pa newidiadau y bydd angen i ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru eu gwneud i'w prosesau gweinyddol i sicrhau bod ysgolion yn cael cyllid y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer yr holl blant cymwys ar y gofrestr, a sut y caiff ysgolion eu helpu i wneud y newidiadau hynny yn ystod y cyfnod pontio.
- Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd pob teulu sy'n gymwys i gael y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad yn parhau i allu hawlio'r cyllid hwnnw.
- Manylion am y dangosyddion y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio yn lle cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim at ddibenion adrodd ar ddata, olrhain canlyniadau disgyblion a sail ei pholisïau sy'n ceisio cefnogi addysg plant o gefndiroedd difreintiedig.

133. Rydym yn croesawu ehangu prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd. Fodd bynnag, nid ydym yn glir ynghylch yr effaith cost, a pham y mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu dyrannu cyllid i'r cynllun hwn, yn hytrach nag i ymyriadau eraill sy'n targedu plant o deuluoedd incwm isel neu blant â phrofiad o fod mewn gofal yn fwy effeithiol. Dylai Llywodraeth Cymru egluro cost y rhaglen prydau ysgol am ddim estynedig a pham y mae wedi blaenoriaethu gwariant yn y maes hwn.

Argymhelliad 14. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gadarnhau cost ddisgwyliedig y cynllun prydau ysgol am ddim estynedig, beth yw ei hamcanion polisi, a'r rhesymeg polisi ar gyfer blaenoriaethu'r cyllid hwn dros fentrau eraill sy'n targedu plant o deuluoedd incwm isel neu blant â phrofiad o fod mewn gofal.

Diwygiadau addysg a chodi safonau

Y cwricwlwm newydd i Gymru

134. Sefydlodd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 gwricwlwm newydd i Gymru, a gaiff ei gyflwyno'n raddol o 2022. Mae'r cwricwlwm newydd yn seiliedig ar sgiliau a diben. Bydd gan ysgolion gryn annibyniaeth i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain. Mae hyn yn newid radical o'r cwricwlwm cenedlaethol presennol, sy'n gymharol ragnodol.

135. Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg sut y mae'r Gyllideb Ddrafft yn cefnogi gweithrediad effeithiol y cwricwlwm newydd i Gymru, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant y gallai fod ei angen i helpu staff ysgolion i'w weithredu'n effeithiol.

136. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod £8.3 miliwn o gyllid ychwanegol wedi'i roi yn y gyllideb y llynedd i gefnogi diwygio'r cwricwlwm. Byddai'r cyllid hwnnw'n parhau yn 2022-23, cyn gostwng i £5.3 miliwn yn 2023-24, cyn lleihau ymhellach wrth i'r diwygiadau gael eu gweithredu. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

*"the professional learning aspect of that is completely fundamental, really. [...]we'll be allocating nearly £37.5 million again in the next financial year for professional learning. Some of that is spent by consortia, some of it by the National Academy for Educational Leadership and some of it by schools directly, obviously, and that will continue."*¹⁰³

137. Cydnabu'r Gweinidog y bydd ymarferwyr sy'n teimlo llawer o bwysau a gorbryder ynghylch cyflwyno'r cwricwlwm yn y ffordd orau i'w dysgwyr a bod llawer o bwysau mewn ysgolion ar hyn o bryd.¹⁰⁴

138. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd camau gweithredu cyllideb 2021-22 "Cwricwlwm ac Asesu" ac "Addysgu ac Arweinyddiaeth" dros y gyllideb (£42 filiwn yn erbyn cyllideb £30 miliwn, ac £61 filiwn yn erbyn cyllideb £45 miliwn yn ôl eu trefn). Mae Cyllideb Ddrafft 2022-23 yn dyrannu £30 miliwn i'r cam gweithredu Cwricwlwm ac Asesu, a £55 miliwn i'r cam gweithredu Athrawon ac Arweinyddiaeth. Gwnaethom bwysu ar y Gweinidog ynghylch a fyddai'r cyllid arfaethedig ar gyfer 2022-23 yn ddigon.

*"[...] the budget appears over-budget, if I can put it like that, because we know that there'll be future transfers made in the next supplementary budget, which is coming out in mid February [...] that will end up being netted out, basically."*¹⁰⁵

Anghenion Dysgu Ychwanegol

139. Gwnaeth Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ddiwygiadau hir-ddisgwyliedig i'r system bresennol ar gyfer diwallu anawsterau dysgu plant a

¹⁰³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 62

¹⁰⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 61 - 63

¹⁰⁵ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 70

phobl ifanc. Dechreuodd dysgwyr symud o'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) bresennol i'r system ADY newydd ym mis Ionawr 2022.

140. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y byddai £15 miliwn yn cael ei ddyrannu i fynd i'r afael â'r pwysau presennol a gweithredu'r diwygiadau.¹⁰⁶ Yna, mewn datganiad ar 7 Ionawr, cyhoeddodd "£18 miliwn ychwanegol".¹⁰⁷ Gofynnwyd i'r Gweinidog egluro faint o gyllid ychwanegol sydd yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, a sut y bydd hyn yn cefnogi gweithrediad Deddf 2018.

"[...] the £18 million is all new money, if you like. In terms of the position going forward, we're doubling our direct investment in ALN with an extra £14 million, to go to schools and to local authorities. There's already £7 million in that line, so that'll end up providing £21 million in that budget line [...]"¹⁰⁸

Codi safonau ysgolion

141. Yn y Bumed Senedd, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid grant dros £100 miliwn i ysgolion wedi'i dargedu i wella ysgolion. Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-26 yn cynnwys ymrwymiad i "[b]arhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi" ond nid yw'n cynnwys manylion penodol am gyllid.¹⁰⁹

142. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i'r Pwyllgor yn nodi "rhesymoli" strwythur llinell wariant Codi Safonau Ysgolion.¹¹⁰ Gofynnwyd i'r Gweinidog a fu newid yn y dull o ddarparu cyllid ychwanegol i ysgolion godi safonau.

"This year's budget commits £25.5 million into [school standards] that will be recurring into each year beyond now. [...] that has now been baselined, if I

¹⁰⁶ Llywodraeth Cymru, '[Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2022-23 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg](#)', Rhagfyr 2021, tudalen 30

¹⁰⁷ Llywodraeth Cymru, '[Datganiad Ysgrifenedig: Cyllid ychwanegol ar gyfer darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol](#)', Ionawr 2022

¹⁰⁸ '[Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 72](#)

¹⁰⁹ Llywodraeth Cymru, '[Y Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad](#)', Rhagfyr 2021, tudalen 8

¹¹⁰ Llywodraeth Cymru, '[Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2022-23 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg](#)', Rhagfyr 2021, tudalen 5

can put it like that, into our new budget. So, that now becomes the new floor [...]"¹¹¹

Miliwn o siaradwyr erbyn 2050

143. Mae'r Cytundeb Cydweithio'n ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i filiwn o siaradwyr erbyn 2050.¹¹² Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg sut y bydd y Gyllideb Ddrafft yn helpu Llywodraeth Cymru i wneud cynnydd tuag at ei thargedau Cymraeg 2050, sef miliwn o siaradwyr a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

144. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod cyllid sylweddol wedi'i ddyrannu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon ar gyfer trochi ac y bydd y cyllid trochi'n parhau i gyfnod y gyllideb hon. Ychwanegodd, dan y cytundeb cydweithio â Phlaid Cymru, y bydd cyllid ychwanegol sylweddol yn mynd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a fydd yn eu galluogi i ehangu'r ddarpariaeth.¹¹³

145. Gwnaethom bwysu ar y Gweinidog ar effaith heriau'r gweithlu ar yr ymrwymiad i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 ac a oedd yn hyderus bod adnoddau digonol yn y gyllideb i fynd i'r afael â phryderon recriwtio.

"Mae £1.8 miliwn yn y flwyddyn nesaf ar gyfer hyn, a chynyddiadau y tu hwnt i hynny hefyd. Mae amryw o bethau sydd angen eu gwneud yn y maes hwn. Mae rhai yn y maes cymhellion ariannol [...] ond hefyd mae angen sicrhau bod y mecanwaith o sut rŷch chi'n cymhwyso fel athro yn y Gymraeg yn annog cymaint o bobl ag sy'n bosib i wneud hynny. Felly, mae gwaith pontio gyda ni ar hyn o bryd; mae gyda ni'r gwaith ble mae'r coleg Cymraeg [...]"¹¹⁴

Ein barn ni

Y cwricwlwm newydd i Gymru

146. Dywedodd y Gweinidog wrthym mai pwynt technegol oedd y gorwariant yn y camau gweithredu 'Cwricwlwm ac Asesu' ac 'Addysgu ac Arweinyddiaeth', y bydd y Llywodraeth yn ei datrys drwy drosglwyddo cyllideb yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22. Mae'r trosglwyddiad hwnnw'n datrys y gorwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Ond os bydd y Llywodraeth

¹¹¹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 29 a 80](#)

¹¹² Llywodraeth Cymru 'Y Cytundeb Cydweithio 2021', Tachwedd 2021, tudalen 2

¹¹³ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 93 - 94](#)

¹¹⁴ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 99 - 101](#)

yn gwario yn 2022-23 yr hyn a wariodd yn 2021-22, bydd gorwariant arall yn yr un camau gweithredu hynny, ac unwaith eto bydd angen i Lywodraeth Cymru wneud trosglwyddiad yn ystod y flwyddyn i ddatrys hynny. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru egluro pam y mae'n rhagweld y bydd gwariant yn y meysydd hanfodol hyn yn llai yn ystod 2022-23 nag yn ystod 2021-22.

Argymhelliad 15. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro pam mae'n credu bod angen llai o gyllid ar gyfer y camau gweithredu 'Cwricwlwm ac Asesu' ac 'Addysgu ac Arweinyddiaeth' yn 2022-23 nag yn 2021-22.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

147. Rydym yn croesawu'n fawr iawn y cyllid ychwanegol yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. Fodd bynnag, rydym yn aneglur o hyd faint o gyllid yn y Gyllideb Ddrafft sydd i fynd i'r afael â'r pwysau presennol, a faint sydd i weithredu'r system newydd.

Argymhelliad 16. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro faint o'r cyllid y mae wedi'i ddyrannu ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd wedi'i glustnodi i fynd i'r afael â'r pwysau presennol, a faint sydd wedi'i neilltuo i weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Miliwn o siaradwyr erbyn 2050

148. Rydym yn falch bod y Gweinidog wedi cydnabod yr heriau gweithlu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu wrth iddi geisio cyflawni ei hamcan, sef miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Rydym yn nodi bod gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r heriau hynny, a gofynnwn i'r Llywodraeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei chynnydd. Yn y cyfamser, gofynnwn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hasesiad o gapasiti presennol y gweithlu i gefnogi'r Llywodraeth i gyflawni ei hamcan.

Argymhelliad 17. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am gynnydd ei gwaith yn canolbwyntio ar oresgyn heriau i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050;
- cyhoeddi asesiad o gapasiti presennol y gweithlu i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Addysg Bellach a dysgu gydol oes

Addysg Bellach

149. Ymatebodd y sefydliad ambarél sy'n cynrychioli'r sector addysg bellach, sef Colegau Cymru, i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft yn ystod hydref 2021. Tynnodd sylw at yr heriau ariannol y mae'r sector yn eu hwynebu, yn ei farn ef, ac effaith y pandemig.¹¹⁵

150. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn nodi cynnydd i'r BEL Darpariaeth Ôl-16, sef £59 miliwn (neu 12 y cant) mewn cymhariaeth â llinell sylfaen ddiwygiedig Cyllideb Derfynol 2021-22. Cynnydd £11 filiwn yw hyn i Gyllideb Atodol gyntaf 2021-22. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn dweud bod y rhan fwyaf o'r cyllid ychwanegol hwn wedi'i roi ar waith "i gydnabod tueddiadau demograffig yn y chweched dosbarth ac mewn colegau, addysg oedolion, a chyllid Adnewyddu a Diwygio."¹¹⁶

151. Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg a yw "tueddiadau demograffig", mewn gwirionedd, yn golygu y bydd unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi nifer gynyddol o ddysgwyr, yn hytrach na chynyddu cyllid fesul dysgwr ar gyfer sefydliadau ôl-16.

*"Some of the increase in the budget this year, which I think, for FE in particular, is, I think it's fair to say, the largest increase that we've seen for a number of years, really. I think some of that restores, obviously, previous, more challenging settlements for the sector. But some of that is around demographic change and some of it is around payroll increases; some of it is about renew and reform funding."*¹¹⁷

Lwfans Cynhaliath Addysg (LCA)

152. Mae cyllid rhagamcanol ar gyfer y Lwfans Cynhaliath Addysg (LCA) a Grant Dysgu mewn Addysg Bellach Llywodraeth Cymru yn aros yn sefydlog yn 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Gofynnwyd i'r Gweinidog pam nad yw wedi'i gynyddu i roi cyfrif am yr un newidiadau demograffig a ysgogodd gyllid ychwanegol ar gyfer chweched dosbarth a cholegau. Dywedodd y canlynol wrthym:

"[...] the forecasts that we have for EMA and, in fact, the Welsh Government learning grant are based on a combination, really, of two things: one is

¹¹⁵ Colegau Cymru, '**Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23**', Tachwedd 2021

¹¹⁶ Llywodraeth Cymru, '**Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2022-23 – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg**', Rhagfyr 2021, tudalen 6

¹¹⁷ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. 20/01/22. Cofnod y Trafodion, paragraff 130**

projections of student numbers and one is last year's data, basically, so it has a kind of leveling effect [...]"¹¹⁸

153. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru werthusiad o'r cynllun LCA yn 2014¹¹⁹ a gwerthusiad o'r cymorth ariannol i fyfyrwyr Addysg Bellach yn ehangach yn 2015¹²⁰. Mae lefel wythnosol yr LCA, sef £30, wedi aros yn gyson ers iddo gael ei gyflwyno yn 2004 ac mae lefelau dyfarniadau eraill £20 a £10 wedi dod i ben. Y trothwy uchafswm incwm cartref blynyddol – yr uchafswm incwm y gall cartref dysgwyr ei gael cyn i'r dysgwyr beidio â bod yn gymwys ar gyfer yr LCA - oedd £19,630 yn 2004-05. Cododd ychydig tan 2011-12, pan mai £21,885 ydoedd. Gostyngodd wedyn i £20,817 yn 2011-12, ac mae wedi parhau ar y lefel hon ers hynny. Os oes ail blentyn dibynnol yn y cartref, mae'r trothwy ychydig yn uwch, sef £23,077.¹²¹

154. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ddiogelu'r Lwfans Cynhaliath Addysg i ddysgwyr ifanc, ond nid yw'n ymrwymo i adolygu'r lefel a delir. Gwnaethom bwysu ar y Gweinidog pam nad yw cyfradd uchaf yr LCA, sef £30 yr wythnos, wedi'i chynyddu ers ei gyflwyno yn 2004.

"We've done some modelling on this to see what the options would be and if we were to increase the EMA to £45 a week [...] that would add an extra £10 million a year to the budget requirement [...] unfortunately, unless we get settlements from the UK Government that are more appropriate—more generous, if you like—then this is the extent to which we can commit until that point, I'm afraid."¹²²

Gwarant i Bobl Ifanc

155. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i gyflawni'r Warrant i Bobl Ifanc, "gan roi i bawb o dan 25 oed y cynnig o waith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth". Nid yw'r Gweinidog yn cyfeirio at hyn yn ei bapur, er bod papur Gweinidog yr Economi i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn nodi y rhagwelir y bydd y Warrant i Bobl Ifanc yn costio tua £500 miliwn ar draws Llywodraeth Cymru a bod hyn yn cynnwys costau yn y MEG

¹¹⁸ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 129**

¹¹⁹ Llywodraeth Cymru, '**Gwerthusiad Lwfans Cynhaliath Addysg**', Hydref 2014

¹²⁰ Llywodraeth Cymru, '**Gwerthusiad o'r cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn addysg bellach yng Nghymru**', Mawrth 2015

¹²¹ Cyllid Myfyrwyr Cymru, '**Incwm y cartref**'

¹²² **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 129**

Addysg a'r Gymraeg.¹²³ Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg egluro faint o gyllid ar gyfer y Warant i Bobl Ifanc sydd yn ei gyllideb.

"The young person's guarantee, if you like, is an umbrella structure that pulls together aspects of Government policy in Vaughan Gething's portfolio and also in mine, principally [...] But there isn't a separate line, if you like, which is 'young person's guarantee', because it reflects existing offers."¹²⁴

Ein barn ni

Addysg Bellach

156. Mae Cyllideb Ddrafft 2022-23 yn dyrannu £11 filiwn ychwanegol i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) Darpariaeth Ôl-16 mewn cymhariaeth â Chyllideb Atodol gyntaf 2021-22. Er bod y cyllid ychwanegol hwn i'w groesawu, mae'n ymddangos bod y cynnydd hwn o ganlyniad i dueddiadau demograffig, yn hytrach na'r Llywodraeth yn darparu mwy o gyllid fesul dysgwr. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru egluro a yw hyn yn wir.

Argymhelliad 18. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro faint o'r cyllid £11 filiwn ychwanegol a ddyrannwyd i'r BEL Darpariaeth Ôl-16 mewn cymhariaeth â'r Gyllideb Atodol gyntaf yw er mwyn galluogi darparwyr Addysg Bellach i ddarparu ar gyfer dysgwyr ychwanegol yn ystod 2022-23, a faint sydd at ddibenion eraill.

LCA

157. O'n gwaith etholaethol a rhanbarthol, credwn fod y Lwfans Cynhaliadaeth Addysg yn ffynhonnell incwm amhrisiadwy i blant ac, o ganlyniad, i'w teuluoedd. Rydym yn pryderu bod yr uchafswm arian a gynigir i bobl ifanc gymwys yn 2022 yr un peth ag roedd yn 2004. Pe bai uchafswm y dyfarniad LCA wedi dilyn chwyddiant, byddai wedi bod yn werth £47.10 yn 2020.¹²⁵ O gofio nad yw'r trothwy cymhwysedd incwm wedi'i ddiwygio chwaith ers 2011-12, sy'n golygu bod llai o ddysgwyr yn gymwys i'w gael bob blwyddyn, mae'r LCA, mewn gwirionedd, wedi bod yn destun toriad mewn termau real bob blwyddyn ers ei gyflwyno.

¹²³ Llywodraeth Cymru, '[Papur tystiolaeth ar Gynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 – Prif Grŵp Gwariant \(MEG\) yr Economi](#)', Rhagfyr 2021, tudalennau 34

¹²⁴ '[Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 140](#)

¹²⁵ Cyfrifwyd hyn drwy ddefnyddio cyfrifydd chwyddiant Banc Lloegr. Gweler: Banc Lloegr, '[Inflation calculator](#)'.

158. O gofio nad yw dyfarniad yr LCA na'r trothwy cymhwysedd wedi dilyn chwyddiant ers eu cyflwyno yn 2004, heb sôn am y pwysau costau ehangach y mae dysgwyr yn eu hwynebu, dylai'r Llywodraeth gynnal adolygiad o'r ddau.

Argymhelliad 19. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o ddyfarniad yr LCA a'r trothwy cymhwysedd incwm i gadarnhau cyfraddau priodol sy'n darparu'r un buddion i'r un gyfran o ddysgwyr a'u teuluoedd ag y gwnaethant pan gyflwynwyd yr LCA yn 2004.

159. Nid oeddem yn argyhoeddedig â dadl Gweinidog y Gymraeg ac Addysg na ellid cynyddu cyfradd wythnosol yr LCA oherwydd nad oedd cyllid Llywodraeth y DU i wneud hynny mwyach. Fel y cydnabu'r Gweinidog ei hun, mewn meysydd eraill o'r Gyllideb Ddrafft mae Llywodraeth Cymru wedi dewis dyrannu cyllid i flaenoriaethau polisi hyd yn oed os nad yw Llywodraeth y DU yn eu hariannu'n llawn. Felly, gofynnwn i Lywodraeth Cymru egluro ei safbwynt polisi ar yr LCA.

Argymhelliad 20. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro'r canlynol:

- y rhesymeg polisi dros beidio â chynyddu cyfradd yr LCA, sef £30 yr wythnos, ers 2004, sydd wedi arwain at ddibrisiant sylweddol yng ngwerth y dyfarniad;
- effaith newidiadau (neu ddiffyg newidiadau) i drothwy incwm yr LCA ar gyfran y dysgwyr sy'n gallu hawlio'r LCA ers 2011-12 (h.y., data sy'n nodi nifer y dysgwyr sy'n hawlio'r LCA yn erbyn cyfanswm y dysgwyr a'r trothwy incwm ar gyfer pob blwyddyn).

160. Mae'n yn aneglur i ni o hyd, os yw Llywodraeth Cymru wedi rhagweld mwy o ddysgwyr yn mynd i Addysg Bellach o 2022-23 ymlaen, pam nad yw cyfanswm y cyllid ar gyfer yr LCA wedi cynyddu. Felly, gofynnwn i'r Llywodraeth egluro'r cysylltiad rhwng niferoedd rhagamcanol dysgwyr Addysg Bellach a chyllideb yr LCA.

Argymhelliad 21. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru egluro pam nad yw'r newidiadau demograffig sy'n debygol o arwain at fwy o ddysgwyr mewn Addysg Bellach o 2022-23 ymlaen wedi arwain at gyllideb uwch ar gyfer yr LCA.

Gwarant i Bobl Ifanc

161. Roedd y Warrant Pobl Ifanc yn un o brif addewidion Llafur Cymru yn ei maniffesto ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021.¹²⁶ Mae'n parhau i fod yn ymrwymiad allweddol yn y Rhaglen

¹²⁶ Llafur Cymru, '**Symud Cymru Ymlaen**', tudalen 5

Lywodraethu wedi'i diweddaru.¹²⁷ Fodd bynnag, nid oedd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn gallu dweud wrthym yn union faint o gyllid o'i gyllideb a oedd wedi'i ddyrannu i gefnogi'r polisi blaenllaw hwn.

162. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn dryloyw ynghylch sut y mae polisiau allweddol yn cael eu hariannu, ac i ba raddau y maent yn fentrau polisi newydd, neu'n ffordd newydd o gyflwyno'r rhai presennol. Rydym yn cydnabod bod cyllid ar gyfer y Warant i Bobl Ifanc yn croestorri portffolios gweinidogol. Ond, os yw'r Llywodraeth yn gallu cyfrifo cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd i'r Warant i Bobl Ifanc (tua £500 miliwn), ni welwn reswm pam na all y Llywodraeth nodi mwy o fanylion ynghylch pa gyllidebau Gweinidogion y tynnwyd cyllid ohonynt i greu'r ffigur pennawd hwnnw. Ochr yn ochr â Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i nodi'n glir pa gyllid fydd yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r Warant i Bobl Ifanc.

Argymhelliad 22. Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn argymhell ar y cyd y dylai Llywodraeth Cymru nodi dadansoddiad o'r cyfraniadau o bob Prif Grŵp Gwariant – ar lefel llinell wariant yn y gyllideb – sy'n cyfuno i greu'r cyllid £500 yr amcangyfrifir bod ei angen er mwyn cyflawni'r Warant i Bobl Ifanc. Dylai'r dadansoddiad hwn ei gwneud yn glir beth yw cyllid newydd a beth yw parhad rhaglenni presennol.

Addysg Uwch

Cyllid ar gyfer Addysg Uwch

163. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) Addysg Uwch yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23 yn is na'r gyllideb ddiweddaraf eleni a'r alldro a ragwelir. Yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft, galwodd Prifysgolion Cymru ar Lywodraeth Cymru i gynnal, o leiaf ac mewn termau real, lefel bresennol y buddsoddiad mewn addysg uwch.¹²⁸ Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg a yw wedi gwneud toriadau mewn termau real i gyllid i'r sector Addysg Uwch.

"Wel, mae hi yn cynnal y lefel [...], os ych chi'n cymharu gyda'r supplementary budgets, mae symiau sylweddol ychwanegol mewn blwyddyn, fel petai, wedi mynd i'r gyllideb honno, sydd ddim yn digwydd mewn

¹²⁷ Llywodraeth Cymru, '**Y Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad**', Rhagfyr 2021, tudalen 4

¹²⁸ Prifysgolion Cymru, '**Ymateb Prifysgolion Cymru i alwad Pwyllgor Cyllid y Senedd i gael gwybodaeth am gynigion ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23**', Tachwedd 2021, tudalen 2

blynyddoedd cyffredin a fydd ddim yn digwydd yn y blynyddoedd sydd i ddod [...] os cymharwch chi fe gyda'r revised baseline... ac os tynnwch chi'r arian allan am brentisiaethau gradd, mae hi ar yr un lefel."¹²⁹

Adolygiadau Diamond a Reid

164. Ym mis Tachwedd 2013, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o drefniadau cyllido Addysg Uwch a chyllid myfyrwyr yng Nghymru. Cyflwynodd panel yr adolygiad, dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Ian Diamond, adroddiad ym mis Medi 2016. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion ar gyfer cyllido Addysg Uwch yng Nghymru yn y dyfodol.¹³⁰ Y bwriad oedd y byddai'r sector Addysg Uwch yng Nghymru yn cael 'Difidend Diamond', fel y'i gelwir, o gyllid grant ychwanegol gan CCAUC o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i'r cymorth i fyfyrwyr ar y pryd.

165. Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg am gyfanswm yr arian y mae'r diwygiadau a ddeilliodd o Adolygiad Diamond wedi galluogi Gweinidogion i'w drosglwyddo o gyllid cymorth i fyfyrwyr i'r BEL Rhaglenni CCAUC yn 2022-23 ac mewn blynyddoedd blaenorol, ac a yw hyn yn gyson â'r modelau gwreiddiol.

166. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod yn "uwch na'r modelu gwreiddiol. Mae e'n rhyw £75 miliwn sydd wedi'i symud o gefnogaeth myfyrwyr yn gyffredinol i HEFCW yn benodol." Esboniodd, yn 2020-21, y bu "transfer o £25 miliwn yn wreiddiol i mewn i HEFCW", a oedd yn cynnwys cyllid ar gyfer prentisiaethau gradd, ar gyfer yr ymateb i'r pandemig, ac i gefnogi iechyd meddwl myfyrwyr.¹³¹

167. Yn 2018, cyhoeddodd yr Athro Graeme Reid adolygiad a gomisiynodd Llywodraeth Cymru i ymchwil ac arloesi yng Nghymru. Argymhellodd yr adolygiad newidiadau i gyllid ymchwil, gan gynnwys gwobrwyo sefydliadau sy'n dod â buddsoddiad ychwanegol i Gymru a rhoi mwy o gymorth i arloesi. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mae Prifysgolion Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflawni argymhellion Adolygiad Reid ar fuddsoddiad ychwanegol.¹³²

168. Mae dystiolaeth Prifysgolion Cymru yn gyson â rhywfaint o'r dystiolaeth a glywsom yn ystod ein gwaith craffu ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Galwodd rhanddeiliaid,

¹²⁹ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 107**

¹³⁰ Llywodraeth Cymru, '**Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru: adroddiad terfynol**', Medi 2016

¹³¹ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 112**

¹³² Prifysgolion Cymru, '**Ymateb Prifysgolion Cymru i alwad Pwyllgor Cyllid y Senedd i gael gwybodaeth am gynigion ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23**', Tachwedd 2021, tudalen 2

gan gynnwys Prifysgol Caerdydd¹³³ a Chymdeithas Ddysgedig Cymru¹³⁴ hefyd i argymhellion Reid gael eu gweithredu'n llawn. Mae ystod eang o randdeiliaid, wrth graffu ar y Bil hwn, wedi tynnu sylw at bwysigrwydd ehangach sicrhau bod sefydliadau Cymru yn cael digon o gyfleoedd i gael cyllid ymchwil.

169. Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg sut y mae'r Gyllideb Ddrafft yn bwrw ymlaen ag argymhellion Adolygiad Reid.

*"Wrth ymateb i Reid, rŷn ni wedi agor y swyddfa yn Llundain, rŷn ni wedi creu cronfa arloesi, sydd yn mynd drwy law HEFCW, ynghyd â buddsoddiad ar gyfer ymchwil QR—yn uwch na'r hyn roedd Reid yn galw amdano fe, fel mae'n digwydd. Rŷn ni wedi creu bursaries drwy law HEFCW, sydd werth rhyw £4 miliwn, sydd â phwyslais ar STEM yn benodol. [...] rŷn ni wedi darparu arian yn ddiweddar i gefnogi ymchwil—[Anghlywadwy.]—a chefnogaeth bellach o £2 miliwn i'r Wales Innovation Network."*¹³⁵

Gradd-brentisiaethau

170. Mae gradd-brentisiaethau'n galluogi dysgwyr i gyfuno gweithio ag astudio'n rhan-amser yn y brifysgol. Mae'r prentisiaethau'n para drwy gydol y cwrs gradd, gyda'r prentisiaid yn treulio rhywfaint o'u hamser yn y brifysgol a'r gweddill gyda'u cyflogwr. Mae gradd-brentisiaethau'n un o ymrwymadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.¹³⁶

171. Hyd yn hyn, mae gradd-brentisiaethau wedi gweithredu fel rhaglen "beilot". Maent wedi'u hariannu drwy drosglwyddiadau o MEG yr Economi i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae'r arfer hwn yn parhau yn 2022-23 gyda £5 miliwn yn cael ei drosglwyddo a mwy i ddilyn. Ymddengys fod hyn yn golygu ehangiad cyfyngedig, os o gwbl, ar radd-brentisiaethau. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fydd gradd-brentisiaethau'n dod yn nodwedd barhaol o fyd addysg drydyddol, a sut y mae'n gweithio ochr yn ochr â Gweinidog yr Economi i ariannu gradd-brentisiaethau.

172. Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn "symud o fod yn beilot i fod yn rhywbeth sy'n mynd i gael ei brif-ffrydio". Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod beth y bydd ei

¹³³ Prifysgol Caerdydd, 'Ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)'

¹³⁴ Cymdeithas Ddysgedig Cymru, 'Ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)'

¹³⁵ **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 114**

¹³⁶ Llywodraeth Cymru, 'Y Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad', Rhagfyr 2021, tudalen 10

hymateb i adolygiad gweithredol o radd-brentisiaethau, ond cadarnhaodd y bydd y ddarpariaeth yn cael ei hehangu.¹³⁷

173. Mewn sesiwn dystiolaeth gyda Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, cadarnhaodd Gweinidog yr Economi fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ehangu gradd-brentisiaethau. Ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru y canlynol:

"[...] there is an evaluation planned in coming months. At the moment, we have £5 million allocated within the education budget, which was a previous MEG-to-MEG transfer from economy. Dependent on the scale of the provision in the next financial year, we will transfer more money across to support that activity. We haven't made that transfer in advance because we're unsure what the volumes will be."¹³⁸

Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu

174. Bydd y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu yn disodli rhaglen cyfnewid myfyrwyr Erasmus ac yn ymarferol yn ategu rhaglen symudedd Cynllun Turing Llywodraeth y DU. Crëwyd cyllideb £26 miliwn ar gyfer y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu yn y Gyllideb Atodol gyntaf ym mis Mehefin 2021, yn dilyn cyhoeddi'r Rhaglen Lywodraethu newydd. Nid yw'r cyllid £26 miliwn hwn wedi'i gynnwys yn y llinell sylfaen, sy'n golygu mai sero yw'r llinell sylfaen ddiwygiedig y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio at ddiben cymharu. Felly, er mai dim ond £6.5 miliwn oedd y gyllideb ar gyfer y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu yn 2022-23, mae'n dangos cynnydd £6.5 miliwn ond, mewn gwirionedd, gostyngiad £19.5 miliwn ydyw o gymharu hyn â lefel wirioneddol y gyllideb ar hyn o bryd.

175. Gofynnwyd i Weinidog y Gymraeg ac Addysg gadarnhau sut y mae cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu yn 2022-23 a'r blynyddoedd i ddod yn cymharu â'r gyllideb bresennol. Amlinellodd "yn y flwyddyn gyntaf, 2020-21, fe wnaethon ni gyfrannu £6.5 miliwn ar gyfer staffio cychwynnol ac ati". Mae tua £26 miliwn wedi'i wario yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22, sef "lle mae'r front-loading yn digwydd". Wedyn, "ymhob blwyddyn nawr, am weddill y tymor hwn, bydd £6.5 miliwn yn cael ei ddyrannu o fy nghyllideb i, i sicrhau ein bod ni'n delifro hwnnw."¹³⁹

¹³⁷ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 117 - 119](#)

¹³⁸ [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraffau 157-163](#)

¹³⁹ [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20/01/22, Cofnod y Trafodion, paragraff 121](#)

Ein barn ni

Gradd-brentisiaethau

176. Rydym yn argyhoeddedig o werth gradd-brentisiaethau ar gyfer dysgu gydol oes ac yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru iddynt. Rydym yn bwriadu monitro'r nifer sy'n dilyn gradd-brentisiaethau a digonolrwydd y lefelau cyllido arfaethedig o ganlyniad i hynny. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru nodi'n glir sut y mae'n bwriadu ysgogi'r galw am radd-brentisiaethau, a'r nifer sy'n eu dilyn, ar draws ystod o sectorau.

Argymhelliad 23. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir sut y mae'n bwriadu gweithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid, dysgwyr a chyflogwyr i ysgogi'r galw am radd-brentisiaethau, a'r nifer sy'n eu dilyn, ar draws ystod o sectorau.

Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu

177. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog y daw'r rhan fwyaf o gyllid y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am effaith y gwaith hwnnw, gyda phwyslais arbennig ar sicrhau bod y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu ar gael i ddysgwyr Addysg Bellach, yn ogystal â dysgwyr Addysg Uwch.

Argymhelliad 24. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor bob chwe mis ar hynt gweithredu'r Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu, gan gynnwys gwybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r rhaglen i ddysgwyr Addysg Bellach.